# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | SPECIAL MEETING OF THE PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH,<br>21 IONAWR 2020 am 1.00 o'r gloch yp | | TUESDAY,<br>21 JANUARY, 2020 at 1.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1,<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1,<br>COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752516 | Committee Officer |

**<u>AELODAU / MEMBERS</u>**
Cynghorwyr / Councillors:-

**<u>Y Grwp Annibynnol / The Independent Group</u>**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**<u>Plaid Cymru / The Party of Wales</u>**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**<u>Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents</u>**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones
**<u>Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party</u>**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 12 Tachwedd, 2019.

## RHAN 1 – MATERION ADDYSG – GWAHODDIAD I HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR

**4** **ADRODDIAD SAFONAU YSGOLION (HAF 2019)** (Tudalennau 9 - 46)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**5** **PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION : ADRODDIAD CYNNYDD** (Tudalennau 47 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

## RHAN 2 – MATERION ERAILL – AELODAU'R PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO YN UNIG

**6** **TRAWSNEWID CYFLEON DYDD ANABLEDDAU DYSGU** (Tudalennau 53 - 108)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

**7** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 109 - 110)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**8** **CYTUNDEB GWASTRAFF** (Tudalennau 111 - 126)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151 ar Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr K P Hughes, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts a Nicola Roberts.<br><br>Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos M Huws (ar gyfer eitem 5)<br>Y Cynghorydd Alun W Mummery – Aelod Portffolio (Tai a Chefnogi Cymunedau – gan gynnwys Diogelwch Cymunedol) (ar gyfer eitem 4). |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Sgriwtini,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Glyn Haynes.<br><br>Mrs Anest Frazer - Yr Eglwys yng Nghymru,<br>Mr Keith Roberts - Yr Eglwys Gatholig,<br>Mrs Llio Johnson - Rhiant Lywodraethwr - Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY),<br>Mr Dyfed W Jones - Rhiant Lywodraethwr - Sector Ysgolion Cynradd),<br>Mr Dafydd Gruffydd - Rheolwr Gyfarwyddwr - Menter Môn. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn (CR) (mewn perthynas ag eitem 4),<br>Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (NH) (mewn perthynas ag eitem 5). |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2019.

## 4 PARTNERIAETH DIOGEWLCH CYMUNEDOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn.

Dywedodd Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn ei bod yn ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol, yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a diwygiadau wedi hynny i Ddeddfau'r Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i roi sylw i'r rhaglen diogelwch cymunedol lleol. Mae'n ddyletswydd ar y Bartneriaeth i ddelio â: -

- Trosedd ac Anhrefn
- Camddefnyddio Sylweddau
- Lleihau aildroseddu
- Cyflwyno asesiad strategol i nodi blaenoriaethau (gwaith sy'n cael ei wneud yn rhanbarthol bellach)
- Rhoi cynlluniau ar waith i ddelio â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail ranbarthol a lleol).

Nodwyd bod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gweithio i gynllun blynyddol sy'n seiliedig ar gynllun rhanbarthol tair blynedd *('roedd adroddiad perfformiad diwedd blwyddyn 2018/19 a chynllun 2019/20 ynghlwm wrth yr adroddiad)*. Nodwyd y saith blaenoriaeth ganlynol gan y Bartneriaeth sy'n seiliedig ar asesiad strategol rhanbarthol, cynllun y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a chynllun y Bwrdd Cymunedau Diogel rhanbarthol: -

- Lleihau troseddau a chanddynt ddioddefwyr (troseddau meddiangar yn unig)
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd
- Codi hyder i adrodd am ddigwyddiadau o gam-drin domestig
- Codi hyder i adrodd am gam-drin rhywiol
- Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal
- Lleihau Aildroseddu

Cafodd y prif negeseuon sy'n deillio o weithgareddau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2018 eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn at ystadegau troseddu yn yr adroddiad. Nododd fod y Swyddfa Gartref yn cymharu'r troseddau mewn ardaloedd sy'n debyg; edrychir ar ystadegau troseddau Ynys Môn a'u cymharu â saith ardal debyg yn y DU. Bu newid yn ystod y flwyddyn hon yn arferion cofnodi'r Heddlu oherwydd y gall un digwyddiad arwain at gofnodi mwy nag un trosedd erbyn hyn. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau bod achosion o dorri i mewn i annedd, adeiladau allanol neu sied bellach yn cael eu categoreiddio fel byrgleriaeth ddomestig yn ystadegau'r Heddlu. Dywedodd Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn fod digwyddiadau byrgleriaeth yn isel ar Ynys Môn.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a'r cwestiynau sgriwtini yn yr adroddiad a chododd y materion a ganlyn:

- Gofynnwyd a oes adnoddau digonol yn y Tîm Diogelwch Cymunedol i gyflawni'r gwaith y mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi'i nodi. Ymatebodd y Prif Weithredwr trwy ddweud mai dim ond un Swyddog sydd yn gweithio o fewn y Tîm Diogelwch Cymunedol ar hyn o bryd ond mae trafodaethau yn parhau o ran disodli'r rôl prosiect a monitro yn y tîm yn dilyn ymadawiad deilydd y swydd ym mis Rhagfyr 2018. Holodd y Cadeirydd pwy fydd yn penderfynu a fydd y rôl prosiect a monitro yn cael ei disodli. Ymatebodd y Prif Weithredwr mai Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar y Tîm Diogelwch Cymunedol ond mae Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd yn gwneud cyfraniad ariannol tuag at y Tîm; fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod hwn sicrhau gwerth am arian. Dywedodd Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn fod y Tîm Diogelwch Cymunedol wedi cael ei leihau o 7 aelod yn 2014 ac er y croesewid adnoddau ychwanegol  tuag at y Tîm Diogelwch Cymunedol, nodwyd bod peth o'r gwaith wedi'i drosglwyddo i'r strwythurau rhanbarthol;
- Gofynnwyd a oedd gan yr holl sefydliadau partner yr un blaenoriaethau yn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Ymatebodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol fod y sefydliad partner wedi cytuno i gynllun gwaith a blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Gofynnwyd a oes gan y sefydliadau partner yr adnoddau eu hunain i gyflawni blaenoriaethau'r Bartneriaeth. Ymatebodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol fod y sefydliadau partner yn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cydweithio'n agos i gyflawni blaenoriaethau'r Bartneriaeth a bod y lefelau presenoldeb yn uchel gan yr holl sefydliadau partner;
- Cyfeiriwyd at y ffaith ei bod yn ymddangos bod yr ystadegau ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn gymharol isel yn yr adroddiad; ystyriwyd bod Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cynyddu mewn cymunedau. Nododd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol y bu gostyngiad nodedig mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, yn enwedig Ymddygiad Gwrthgymdeithasol personol dros y deng mlynedd diwethaf, a bod y fframwaith amlasiantaethol ar gyfer ymateb i Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi hen sefydlu, a bod hynny wedi cyfrannu at y gostyngiad yn nifer yr digwyddiadau. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y dylid rhoi gwybod i'r Heddlu am unrhyw ddigwyddiad. Esgorodd hyn ar drafodaeth ar effeithiolrwydd y system 101 ac awgrymwyd y gallai hynny fod yn fater i'w drafod gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd;
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch pam oedd casglu gwybodaeth wedi'i nodi fel 'dangosydd coch' yn yr adroddiad. Ymatebodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol fod y 'dangosydd coch' yn cyfeirio at weithred na chafodd ei chwblhau o fewn y flwyddyn, a oedd yn ymwneud â Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus. Mae'r weithred hon wedi'i dwyn ymlaen i'r flwyddyn hon ac mae'n mynd rhagddi;
- Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau ei fod yn teimlo, fel cynrychiolydd ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a sefydliadau eraill, nad oes gweithdrefn iddo fedru adrodd yn ôl i Bwyllgor ar drafodaethau a blaenoriaethau'r partneriaethau hyn.  Ymatebodd y Rheolwr Sgriwtini fod y Pwyllgor hwn wedi cytuno i wahodd Aelodau Etholedig perthnasol sy'n cynrychioli'r Cyngor ar sefydliadau partner i annerch y cyfarfod hwn maes o law.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r dogfennau atodedig a chefnogi blaenoriaethau a chyfeiriadau gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i'r dyfodol.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

**5 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS – TREFNIADAU LLYWODRAETHU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn wedi ei sefydlu yn 2016 yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn pennu'r blaenoriaethau ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cynhaliwyd asesiad llesiant ar draws meysydd llesiant yng Ngwynedd ac Ynys Môn a arweiniodd at gyfres o sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno ar feysydd blaenoriaeth i gyflawni'r amcanion fel y nodwyd yn yr adroddiad. Mae'r Is-grwpiau canlynol hefyd wedi'u sefydlu o dan Amcan 1 - Cymunedau sy'n ffynnu ac sy'n llewyrchus yn y tymor hir:-

- **Is-grŵp Iaith Gymraeg** - Mae'r is-grŵp wedi penderfynu canolbwyntio'n bennaf ar brosiect penodol o'r enw 'Arfer' sy'n edrych ar newidiadau ymddygiad yn y gweithle ac a all arwain at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan yr unigolion hynny nad ydyn nhw'n teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Iaith. Disgwylir i'r prosiect 'Arfer' redeg am 12 mis yn y lle cyntaf;
- **Is-grŵp Newid Hinsawdd** - Mae'r is-grŵp wedi canolbwyntio ar ddeall y data a'r dystiolaeth sydd ar gael gan sefydliadau sy'n aelodau o'r grŵp fel y gellir ei ddefnyddio i siapio rhagolygon a modelau newid hinsawdd. Bydd yr is-grŵp hwn hefyd yn canolbwyntio ar y cymunedau a'r asedau sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mae'r is-grŵp hefyd wedi defnyddio 'Fairbourne' fel achos o arfer da ac er mwyn dysgu gwersi ar agweddau fel ymgysylltu a gwell cydweithredu er lles cymunedau;
- **Cartrefi i bobl leol** - Ar hyn o bryd mae Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn bwriadu datblygu tai arloesol. Mae'r is-grŵp yn cynnig dwyn ynghyd gynlluniau cyrff cyhoeddus a rhoi trefniadau ar waith i weithio gyda'i gilydd i ystyried nifer llai o fodelau arloesol. Penodwyd Swyddog Rheoli Prosiect, ar sail rhan-amser, i yrru'r gwaith yn ei flaen;
- **Tlodi** - Mae tlodi yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd ond nid oes is-grŵp yn arwain ar y gwaith ar hyn o bryd. Cytunwyd bod cyfle trwy'r Bwrdd i fynd i'r afael â'r gwaith sydd eisoes wedi cychwyn yn y ddau awdurdod cyn ystyried opsiynau i'r Bwrdd weithio mewn ffordd fwy integredig a chydlynol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ymhellach fod **Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer y Gorllewin** wedi'i sefydlu o fewn Amcan 2. Mae'r is-grŵp yn cadw trosolwg ac yn sicrhau y cyflwynir y datblygiadau a'r newidiadau y mae gofyn eu gwneud. Mae'r is-grŵp hefyd yn darparu'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant ar gyfer yr is-grwpiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith sef plant, oedolion,

anabledd dysgu iechyd meddwl a thrawsnewid cymunedol. Nododd fod y Bwrdd wedi derbyn cyllid o  gyllideb drawsnewid ‘Cymru Iachach’. Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor hefyd at waith a wnaed, o ganlyniad i'r cyllid, mewn Ward yn Ysbyty Gwynedd i nodi'r problemau a'r heriau sy'n bodoli yn yr Ysbyty. Mae'r Bwrdd hefyd yn y broses o sefydlu Timau Integredig i weithio yng nghymunedau'r ddau awdurdod.

Adroddwyd bod Pwyllgorau Sgriwtini Gwynedd ac Ynys Môn yn craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phan sefydlwyd y Bwrdd cytunwyd y dylid ystyried sefydlu panel sgriwtini ar y cyd i wneud y gwaith. Mae Swyddogion Sgriwtini o'r ddau Awdurdod wedi gwerthuso'r ddau opsiwn, sef parhau â'r trefniadau sgriwtini presennol neu sefydlu panel sgriwtini ar y cyd. Daethpwyd i'r casgliad bod y drefn gyfredol o adrodd i bwyllgorau sgriwtini’r ddau awdurdod yn drefniant gwell ac y dylid canolbwyntio ar alinio amserlenni a chysondeb y trefniadau sgriwtini ar draws y ddwy sir.

Gan gyfeirio at adnoddau'r Bwrdd, adroddwyd bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno i gydariannu adnodd ar gyfer cefnogi gwaith un o'r is-grwpiau a rhagwelir y bydd yr angen am adnoddau yn parhau wrth i'r is-grwpiau aeddfedu a datblygu.

Mae'r Bwrdd hefyd yn rheoli risgiau mewn perthynas â phrosiectau a gwaith yr is-grwpiau er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun llesiant a'r amserlen arfaethedig. Bydd cofrestr risg ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd i'w chymeradwyo ym mis Rhagfyr 2019.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad o’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar ran y 19 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru ym mis Hydref 2019 er mwyn edrych ar sut mae’r Byrddau’n gweithredu. Paratowyd adroddiad yn amlinellu crynodeb o'r prif argymhellion a chynigion ar sut gallai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ymateb iddynt, ac fe’i cyflwynir i'r Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2019. Bydd y papur yn cael ei rannu gyda Phwyllgorau Sgriwtini’r ddau Gyngor wedi hynny.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a'r cwestiynau sgriwtini yn yr adroddiad a chododd y materion a ganlyn: -

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oes gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gylch gorchwyl y cytunwyd arno. Ymatebodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn fod gan y Bwrdd gylch gorchwyl a'i fod yn eitem sefydlog ar raglen y Bwrdd ac y bydd ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (www.llesiantwgwyneddamon.org);
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych Banel Sgriwtini ar y cyd i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor trwy ddweud y bu opsiwn, yn y cyfnod pan oedd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu sefydlu ledled Cymru, i’r awdurdodau lleol sefydlu Byrddau ar y cyd neu i gydweithio; cytunodd Gwynedd ac Ynys Môn i gydweithio. Dywedodd Rheolwr Rhaglen

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, er bod y model sgriwtini cyfredol yn gweithio'n dda ar hyn o bryd, fod y Bwrdd yn bwriadu ailedrych ar y model o weithio yn y dyfodol;

- Cyfeiriwyd nad oes is-grŵp ar hyn o bryd yn delio â thlodi. Awgrymodd yr aelodau fod angen rhoi mwy o ffocws i dlodi cyn i'r sefyllfa waethygu ac yn enwedig wrth i Gredyd Cynhwysol gael ei weithredu ar yr Ynys. Ymatebodd Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn fod gan y Bwrdd Is-grŵp Tlodi ac nad oedd yr is-grŵp wedi cytuno ar ffrydiau gwaith a allai ychwanegu gwerth at y gwaith a wneir eisoes gan bartneriaid y Bwrdd mewn perthynas â thlodi. 'Roedd risg ychwanegol hefyd yn yr ystyr nad oedd gan yr is-grŵp aelod o'r Bwrdd sy'n arwain y gwaith ar hyn o bryd. Dywedodd fod y Bwrdd wedi cytuno i gadw llygad ar y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol o ran mynd i'r afael â thlodi ac wedi hynny bydd y Bwrdd yn cytuno ble i ganolbwyntio ei adnoddau i ychwanegu gwerth at y gwaith a wneir gan yr awdurdodau lleol;
- Gofynnwyd a oes gwersi i'w dysgu o'r adolygiad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar. Ymatebodd Rheolwr Rhaglen Gwynedd ac Ynys Môn fod yr argymhellion yn adolygiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael y sylw dyledus. Dywedodd mai un o'r argymhellion yw bod angen i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn gyhoeddi papurau'r Bwrdd a diweddaru gwefan y Bwrdd a sicrhau bod trigolion y ddwy Sir yn cymryd rhan ac yn ymgysylltu â gwaith y Bwrdd. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen ymhellach y bydd angen i'r Bwrdd adolygu a diweddaru ei asesiadau llesiant bob pum mlynedd;
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch pa sicrwydd a roddir y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflawni cerrig milltir allweddol mewn modd amserol. Ymatebodd Rheolwr Rhaglen Gwynedd ac Ynys Môn fod pob is-grŵp wedi nodi cerrig milltir allweddol yng ngwaith yr is-grwpiau a bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu herio ffocws yr is-grwpiau. Bydd yr Is-grwpiau'n parhau i gyflwyno adroddiadau cynnydd i'r Bwrdd ac i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud;
- Cyfeiriwyd at y cynllun 'Cartrefi i Bobl Leol' a bod cynllun prosiect drafft wedi'i ddatblygu i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020. Gofynnwyd a fyddai effaith ar y cynllun oherwydd bod gan yr Awdurdod hwn ei stoc dai ei hun a bod Cyngor Gwynedd wedi trosglwyddo ei stoc dai i Adra (Cartrefi Cymunedol Gwynedd). Gofynnwyd ymhellach a fyddai'r cynllun 'Cartrefi i Bobl Leol' yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor fod anghenion tai yn y ddau awdurdod yn debyg. Nododd fod cymdeithasau tai eraill yn aelodau o'r Is-grŵp 'Cartrefi i Bobl Leol'; cynhelir trafodaethau hefyd gyda'r Bwrdd Iechyd ynghylch argaeledd tir ar gyfer cynlluniau tai o'r fath. Dywedodd y bydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gweithio'n agos o ran y cynllun hwn. Dywedodd y Prif Weithredwr fod angen i'r cynllun 'Cartrefi i Bobl Leol' ychwanegu gwerth gan fod angen dybryd am gartrefi i bobl ifanc leol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 6 BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor ac atodiadau yn cynnwys eitemau a raglennwyd ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini tan fis Rhagfyr, 2019 ac o fis Ionawr i fis Ebrill 2020.

Nododd y Rheolwr Sgriwtini fod y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 12 Rhagfyr, 2019 wedi'i aildrefnu i'w gynnal ar 21 Ionawr, 2020.

**PENDERFYNWYD nodi'r Flaenraglen.**

**GWEITHREDU: Fel uchod.**

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **21 Ionawr, 2020** |
| **Pwnc:** | **Safonau Ysgolion - Haf 2019** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng. Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng. R Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Rhys Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Rhys Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc**<br>**01248 752916**<br>**Rhyshughes2@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

**A1**: Gymeradwyo cynnwys Adroddiad ar Ddeilliannau 2019 Ynys Môn parthed:

- Adroddiad ar Asesiad Athro (Cyfnod Sylfaen / Cyfnod Allweddol 2 / Cyfnod Allweddol 3)
- Adroddiad ar ganlyniadau CA4
- Adroddiad ar ganlyniadau CA5
- Proffil Estyn ALl Ynys Môn

**A2:**

Gytuno ar / a chymeradwyo y prif feysydd ar gyfer gwelliant i ALl Ynys Môn.

**A3:**

Gymeradwyo y datblygiadau parthed y gwaith ymgysylltu gyda chymheiriaid yn Ynys Môn

**A4:**

Gymeradwyo y broses atebolrwydd rhwng Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn a GwE.

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid.<br><br>Nôd: gweithio tuag at Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle bydd teuluoedd yn ffynnu<br><br>Amcan 1<br>Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br><br>Byddwn yn parhau i godi safonau addysg a sicrhau bod gan ein pobl<br>ifanc y sgiliau cywir ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant. |
| **3 – Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a **chymunedau [ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• hirdymor<br>• atal<br>• integreiddio<br>• cydweithio<br>• cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| **4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| <u>Cyffredinol</u><br>1. Pa effaith ydych chi'n ei weld ers y newid gofynion fel nad yw asesiadau athrawon y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3 yn cael eu cyhoeddi?<br>- Effaith cyffredinol ar ddata yn Genedlaethol?<br>- Effaith cyffredinol ar ddata ysgolion Ynys Môn?<br>- Effaith a welir wrth ymweld ag ysgolion – ar blant, staff a penaethiaid?<br><br>2. Gan nad oes cymhariaethau meincnodol bellach yn y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3, sut mae ysgolion a GwE (ar ran Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn) yn mesur os yw'r disgyblion yn llwyddo?<br><br>3. Fe sonioch ar y cychwyn bod cydweithio ac ymgysylltu gyda chymheiriaid yn derbyn sylw cenedlaethol. Fedrwch chi roi trosolwg i ni o unrhyw ddatblygiadau perthnasol ym Môn, a sut mae GwE (ar ran Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn) yn cyfrannu neu yn hyrwyddo'r agenda hon? |

4. A ydych yn meddwl bod y drefn atebolrwydd rhwng Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn a GwE yn effeithiol? A pham?

Cynradd

1. Gan nad yw Llywodraeth Cymru yn paratoi pecyn 'Data Craidd' bellach i ysgolion Cynradd, ydy GwE (ar ran Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn) yn paratoi unrhyw beth i helpu ysgolion ddadansoddi eu data yn fewnol?

2. Pam y mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn is yn gyffredinol ar y deilliant disgwyliedig yn y ddwy flynedd diwethaf?

3. Pam fod asesiadau'r Gymraeg yn CA2 wedi gostwng dros y ddwy flynedd diwethaf?

4. Pam fod asesiadau disgyblion sydd a hawl i ginio am ddim i weld yn gyffredinol is eleni yn y ddau Gyfnod Allweddol o gymharu a blynyddoedd eraill?

Uwchradd

1. Pam mae perfformiad yr uwch lefelau yn is na'r cyfartaledd ym Môn, a sut mae GwE (ar ran Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn) yn cefnogi'r ysgolion i wella perfformiad ar y lefelau uchaf a'r graddau uchaf yn CA4 a CA5?

2. Yn CA4, mae'r dangosydd newydd Capio 9 yn rhoi sylw i ystod ehangach o bynciau a chymwysterau nag oedd y Trothwy Lefel 2+ blaenorol. Sut mae GwE (ar ran Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn) yn sicrhau bod cefnogaeth i bynciau y tu allan i'r pynciau craidd?

3. Pam bod perfformiad disgyblion PYD Môn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, a sut sicrheir gwelliannau ym mherfformiad y garfan hon o ddisgyblion?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. CYD-DESTUN**

Gweler "Adroddiad ar Ddeilliannau 2019 Ynys Môn."

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| D/B |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| D/B |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Adroddiad ar Ddeilliannau 2019 Ynys Môn. |

| **9 – Papurau Cefndir (cysylltwch ag Awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

# ADRODDIAD AR DDEILLIANNAU 2019

# Ynys Môn

## CYNNWYS

**1. Cefndir a chyd-destun**

**2. Safonau**
- **Trosolwg o berfformiad ym mhob Awdurdod Lleol (AauLl unigol i'w cynnwys yn Atodiad 1)**
- **Proffil Arolygiadau Ysgolion Estyn**
- **Categoreiddio Cenedlaethol**

**3. Cwestiynau sy'n dod i'r amlwg i helpu'r Cyd-bwyllgor, swyddogion ALl a Phwyllgorau Craffu i arfarnu cynnydd, safonau a pherfformiad disgyblion.**

**4. Blaenoriaethau Cynllun Busnes 2019-20**

**5. Atodiad 1 - Adroddiad ar Safonau i bob ALl unigol**

## 1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Mae Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr ag amryw o bartneriaid ac arbenigwyr, wedi mynd ati i adolygu'r system atebolrwydd i ysgolion yng Nghymru.

Amlygodd y canfyddiadau bod gan y system bresennol, a'i defnydd o fesurau perfformiad, amryw o ganlyniadau anfwriadol negyddol, megis:

- culhau'r dewis yn y cwricwlwm;
- ffocws anghymesur ar grwpiau penodol o ddysgwyr;
- sut y defnyddir meincnodi, sy'n gyrru cystadleuaeth rhwng ysgolion yn hytrach nag annog cydweithredu;
- llwyth gwaith cynyddol a diangen i athrawon ac eraill yn y system, heb yr effaith na'r budd angenrheidiol i ddysgwyr; a
- cyfuno data at ddibenion *atebolrwydd,* pan y'i lluniwyd at ddibenion gwella.

O ganlyniad, mae ysgolion wedi clywed negeseuon anghyson gan y gwahanol rannau o'r system ynghylch yr hyn sy'n bwysig. Yn aml, mae hyn wedi gwyro ymdrechion oddi wrth y dysgu a'r addysgu a'n symud tuag at ddiwylliant o gydymffurfio a biwrocratiaeth.

Roedd gohebiaeth ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Estyn i Gadeiryddion Craffu, Aelodau Cabinet, Cyfarwyddwyr Addysg, Prif Swyddogion Gweithredol, a Rheolwyr Gyfarwyddwyr Consortia Addysg Rhanbarthol, a gyhoeddwyd ar **16 Gorffennaf 2019** yn datgan:

> "*Mae'n wrthgynhyrchiol rhoi pwysau anghymesur ar ysgolion ar sail mesurau unigol. Nid yw'n llesol i welliant ysgol, a gallai danseilio y newid parhaus mewn diwylliant yr ydym ni'n gweithio gyda'n gilydd i'w gyflawni. Disgwyliwn i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gefnogi ysgolion i wneud penderfyniadau priodol am eu cwricwlwm i osgoi culhau'r dewis i ddysgwyr.*
>
> *Ar y cyd, rydym wedi cytuno mai dyma'r ffordd gywir i weithredu, ac fe'ch cynghorwn yn gryf i ddefnyddio ystod eang o wybodaeth a data heb ei gyfuno, fel bod modd i chi gyflawni eich dyletswyddau wrth adrodd ar berfformiad ysgolion. Bydd arfarnu perfformiad ysgolion unigol yn hytrach na chynhyrchu data wedi'i gyfuno ar lefel awdurdod lleol yn fwy buddiol ar gyfer cefnogi a herio ysgolion unigol i wella*."

Bydd yr adroddiad hwn ar berfformiad yng Ngogledd Cymru yn cadw at y canllawiau hyn.

### Adrodd ar Asesiad Athro (Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 3)

Cyflwynwyd newidiadau cenedlaethol o ran adrodd ar asesiad athro yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Ategir amcanion allweddol dogfen Llywodraeth Cymru: 'Cenhadaeth ein cenedl' wrth ddarparu trefniadau asesu, arfarnu ac atebolrwydd cadarn i gefnogi system sy'n hunan wella.

Er mwyn i bob dysgwr gyflawni ei botensial yn llawn, awgryma tystiolaeth ryngwladol bod angen system asesu ac atebolrwydd gydlynol. Prif ddiben asesu yw darparu gwybodaeth sy'n llywio penderfyniadau am y ffordd orau o symud dysgu disgyblion yn ei flaen.

Bellach, mae mwy o ffocws ar i ysgolion ddefnyddio data wrth hunan arfarnu. Yn y system ddiwygiedig, mae ysgolion yn cael eu harfarnu yn unol â'r gwahaniaeth a wnânt i gynnydd pob disgybl.

Mae'r data a'r wybodaeth sydd ar gael i ysgolion er mwyn mesur y cynnydd hwn yn cynnwys: data diwedd cyfnod allweddol, data mynediad gwaelodlin, data cynnydd disgyblion dros amser, data gwerth ychwanegol rhwng y gwaelodlin a chyfnodau allweddol, data profion diagnostig ar ddarllen a rhifedd, ymchwil weithredol a data profion penodol yn ogystal â deilliannau arolygiad ESTYN.

Mae data a gyfunwyd ar i fyny yn hanesyddol, at ddibenion cymharu, wedi'i ddileu. Nid yw meincnodi, cymharu â sefydliadau eraill, data profion darllen a rhifedd, gosod ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn ôl trefn, bellach yn dderbyniol nac yn bosibl. Ers y llynedd, yr unig ddata cymharol sydd ar gael i Awdurdodau Lleol yn y cyfnodau allweddol hyn yw cyfartaleddau Cenedlaethol diwedd y cyfnodau allweddol hyn.

Yn ychwanegol, cyhoeddodd Y Gweinidog Addysg ddatganiad ar dargedau perfformiad ysgolion ym mis Mehefin 2019. Meddai:
' ……, *Rwyf am ei gwneud yn gwbl glir mai dim ond fel cyfrwng i ategu gwaith hunanwerthuso ysgolion y dylid defnyddio targedau, ac na ddylid eu hystyried yn fesur perfformiad y bydd ysgolion yn atebol i awdurdodau lleol ar ei sail.'*

Bydd y newidiadau diweddar hyn mewn gofynion adrodd ar asesu yn cryfhau manwl gywirdeb asesu. Bydd yn lleihau lefelau chwyddedig a 'chwarae'r gêm' ac yn sicrhau bod pob ysgol yn ystyried pob dysgwr yn ofalus, nid yn unig y dysgwyr ffiniol sy'n cael dylanwad ar a fydd ysgol yn cyflawni mesur cul ai peidio.

Bydd pwyslais o'r newydd yn y trefniadau cenedlaethol ar Asesu ar gyfer Dysgu fel rhan hanfodol ac annatod o ddysgu ac addysgu; mae'n gam arwyddocaol oddi wrth casglu gwybodaeth am berfformiad pobl ifanc fesul ysgol at ddibenion atebolrwydd.

Ni fydd data asesiad athro na data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortia yn cael ei gyhoeddi mwyach. Mae hyn yn berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ym mhob ysgol gynradd ac ysgol uwchradd a gynhelir.

Trefniadau fydd yn parhau:

- Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ac Asesiad Athro ar gyfer dysgwyr unigol, fodd bynnag ni chyhoeddir unrhyw wybodaeth feincnodol lefel ysgol genedlaethol.
- Gofynnir i Benaethiaid adrodd ar berfformiad ysgol i rieni ac oedolion sy'n ddysgwyr pob blwyddyn academaidd.
- Gofynnir i Gyrff Llywodraethu lunio adroddiad blynyddol i rieni, prosbectws ysgol, cynllun datblygu ysgol a gosod targedau perfformiad ac absenoldeb. Mae gan ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol fynediad i'w data eu hunain o hyd (ynghyd â data ar lefel genedlaethol), at ddibenion hunan arfarnu.
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu data ar lefel dysgwr unigol er sicrhau tryloywder ar lefel perfformiad cenedlaethol, ac i lywio'r gwaith o lunio polisïau.

Trefniadau a fydd yn newid:

- Ni chyhoeddir gwybodaeth gymharol am asesiadau athro a phrofion mewn perthynas ag ysgolion eraill mewn awdurdod lleol, na 'theulu o ysgolion'.
- Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu, nac yn cyhoeddi, Adroddiadau Cymharol Ysgolion na Setiau Data Craidd Cymru Gyfan mwyach i ysgolion ac awdurdodau lleol, o safbwynt data asesiadau athrawon.
- Ar wefan *My Local School*, ni cheir mwyach ddata asesiadau athrawon sy'n is na'r lefel genedlaethol (o 2018).

**Newidiadau yn y Meysydd Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen**

Ym mis Hydref 2014, adolygwyd Meysydd Dysgu (MD) y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol i gyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh), yn ogystal â'u gwneud yn fwy heriol. Yn unol â hyn, cafodd ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen eu hail-galibro i gyd-fynd â disgwyliadau cynyddol y Meysydd Dysgu diwygiedig.

Cyflwynwyd y MDaPh diwygiedig ar sail statudol o fis Medi 2015. Golyga hyn mai'r garfan a ddechreuodd yn y dosbarth Derbyn ym mis Medi 2015 oedd y garfan gyntaf o blant i gael eu hasesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau diwygiedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn Haf 2018. Felly, dylid osgoi cymharu deilliannau'r Cyfnod Sylfaen â blynyddoedd blaenorol ar lefel ysgol, gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymaradwy.

**Adrodd ar ganlyniadau CA4**

Cyflwynwyd mesurau CA4 newydd dros dro ar gyfer 2019 yn rhan o'r rhaglen diwygio addysg yng Nghymru.

Cesglir data cenedlaethol i ysgolion unigol yn seiliedig ar ganlyniadau arholiadau cyntaf. Bydd y ddata a ddarperir yn rhanbarthol i ysgolion unigol ac AauLl hefyd yn seiliedig ar ganlyniadau arholiadau cyntaf.
Mae JCQ/CBAC wedi cyhoeddi eu data a'u cyhoeddiad i'r wasg yn seiliedig ar y 'deilliant gorau' a gyflawnwyd gan ddysgwyr 16 oed ar draws cyfres mis Tachwedd a'r Haf. Bydd gwahaniaethau rhwng y data arholiad cyntaf a'r deilliant gorau.

O ganlyniad, ar draws amryw o ddangosyddion, ni fydd modd cymharu ffigyrau 2019 â pherfformiad blaenorol.

Yn y tabl isod, gwelir y mesurau dros dro newydd a'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo. Dengys hefyd y gwahaniaethau allweddol â blynyddoedd blaenorol.

| **Mesur Dro Dro** | **Sut y caiff ei gyfrifo** | **Gwahaniaethau o'r blynyddoedd blaenorol, a pham na ellir cymharu** |
|---|---|---|
| Capio 9 | Mae'r Sgôr Pwyntiau 9 wedi'i gapio yn fesur perfformiad sy'n cyfrifo cyfartaledd y sgoriau am y dyfarniadau gorau i bob disgybl unigol yn y garfan, wedi'i gapio ar gyfer nifer penodol o TGAU neu gymwysterau cyfwerth.<br><br>Mae tri o'r naw slot angen dyfarniadau pynciau a chymwysterau penodol er mwyn cyfrannu unrhyw bwyntiau tuag at y mesur. Mae'r slotiau hyn yn rhai maint TGAU, sy'n nodi gofynion mewn TGAU llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth yn unig.<br><br>Gall y radd orau o unrhyw TGAU llenyddiaeth neu Gymraeg iaith gyntaf neu Saesneg gyfrannu tuag at y slot llythrennedd. | ✓ Dim ond arholiad cyntaf disgybl fydd yn cyfrif<br>✓ TGAU Gwyddoniaeth CBAC yn unig |

| | | |
|---|---|---|
| | Gall y radd orau o naill ai mathemateg neu fathemateg- rhifedd TGAU gyfrannu at y slot rhifedd.<br><br>Gall y radd orau o TGAU gwyddoniaeth gyfrannu at y slot gwyddoniaeth (ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i gyfyngu i ddyfarniadau yng nghyfres cymwysterau TGAU gwyddoniaeth sydd ar gael i ddysgwyr ar hyn o bryd: bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl), gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl).<br><br>Bydd y chwe chymhwyster sy'n weddill yn cynnwys perfformiad gorau'r disgybl naill ai mewn TGAU ac/neu gymhwyster galwedigaethol sy'n gyfwerth. | |
| Mesur Llythrennedd | Cyfrifo'r cyfartaledd o'r sgoriau i bob disgybl unigol yn y garfan, cymryd y radd orau o unrhyw TGAU llenyddiaeth neu Gymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a ddyfernir i ddisgybl. | Mesur 2019 newydd, dim ond yr arholiad cyntaf fydd yn cyfrif, efo Llenyddiaeth hefyd yn cael ei derbyn o fewn y mesur hwn. |
| Mesur Rhifedd | Cyfrifo'r cyfartaledd o'r sgoriau i bob disgybl unigol yn y garfan, cymryd y radd orau o unrhyw TGAU mathemateg neu fathemateg - rhifedd a ddyfernir i ddisgybl. | Mesur 2019 newydd, dim ond yr arholiad cyntaf fydd yn cyfrif |
| Mesur gwyddoniaeth | Cyfrifo cyfartaledd y sgorau i bob disgybl unigol yn y garfan, cymryd y radd orau o TGAU gwyddoniaeth a ddyfernir i ddysgwr (ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i gyfyngu i ddyfarniadau yng nghyfres cymwysterau TGAU gwyddoniaeth sydd ar gael i ddysgwyr: bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl), gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl) - adnabyddir bod y rhain yn gallu cyfrannu tuag at fesurau gwyddoniaeth. | Mesur 2019 newydd, dim ond yr arholiad cyntaf fydd yn cyfrif |
| Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru | Cyfrifo cyfartaledd y sgorau i Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru i bob dysgwr unigol yn y garfan, boed yn ddyfarniad Sylfaen (Lefel 1) neu Genedlaethol (Lefel 2). | Adroddir ar wahân fel prif ddangosydd am y tro cyntaf yn 2019 |

Yn y cyd-destun hwn, dylid dadansoddi'r data ar lefel leol ac fel man cychwyn i gwestiynu blaenoriaethau lleol.

Er bod data 2019 ar gael ar hyn o bryd ar fesurau perfformiad hanesyddol (L1, L2, L2+ a 5A*-A), nid yw'n ddilys cymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd bod yr arholiad cyntaf yn cyfrif yn hytrach na'r deilliant gorau.

### Craffu ar Berfformiad Ysgolion Unigol

Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Ansawdd Lleol pob pythefnos rhwng Arweinyddion Craidd GwE a phob ALI. Trafodir unrhyw ysgolion sy'n achosi pryder, a nodir unrhyw gryfderau a meysydd

i'w gwella. Mae hyn yn cysylltu â'r cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir gan yr arweinydd craidd efo Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i drafod cynnydd ysgolion. Mae'r gohebu rheolaidd rhwng yr ALl a swyddogion GwE yn sicrhau y rhennir gwybodaeth am allu ysgolion i wella. Ble gwelir bod pryderon, bydd pawb yn gweithio mewn partneriaeth i adolygu'r safonau a'r ddarpariaeth yn yr ysgol a gosod a monitro targedau pendant ar gyfer gwella.

Mae gan bob ALl ei brosesau monitro ei hun i graffu ar berfformiad ysgolion unigol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio 'Byrddau Gwelliant Carlam' i ysgolion sy'n achosi pryder.

Disgrifir trefniadau monitro pob ALl yn eu hadroddiad safonau unigol.

## Ysgolion sy'n achosi pryder

Mae pob ysgol ar daith tuag at welliant, ac felly mae arnynt angen cymorth a her sy'n briodol a gwahaniaethol i amrywiol raddau. Bydd angen targedu ymyrraeth ddwysach o safbwynt rhai ysgolion.

Mae'r label 'ysgolion sy'n achosi pryder' yn un eang iawn, ac nid yw'r canllawiau cenedlaethol yn diffinio'r term ehangach yn glir. I'n dibenion ni yn GwE, rydym wedi llunio'r diffiniadau hyn:

- Ysgolion y mae arnynt angen cymorth i gynnal neu wella safonau [h.y. symud o 'dda' i 'ragorol' neu 'ysgolion sy'n perfformio'n gyfforddus'];
- Ysgolion sy'n gwella ond y mae arnynt angen rhagor o gymorth i wella'u cofnod llwyddiant ac/neu leihau amrywiad o fewn yr ysgol ymhellach;
- Ysgolion ble mae angen targedu cynhaliaeth ac ymyrraeth fwy penodol i'w hatal rhag achosi pryder sylweddol;
- Ysgolion y gwelir sy'n achosi pryder sylweddol ac/neu sydd mewn categori statudol.

Mae gan GwE, a'r awdurdodau lleol, hanes gyffredinol dda o ran cefnogi ysgolion yn effeithiol, ac yn benodol yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder. Mae gan bob ysgol uwchradd 'Gynllun Cefnogaeth' unigryw sy'n sicrhau bod cefnogaeth GwE yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau eu CDY. Fel hyn, gellir defnyddio adnoddau, arbenigedd ac arferion gorau y rhanbarth yn fwy effeithiol.

Caiff her a chefnogaeth eu targedu yn amserol ac yn effeithiol, sy'n arwain, yn y rhan fwyaf o achosion, at gyflymu'r daith wella yn yr ysgolion sydd wedi'u hadnabod a, ble'n berthnasol, cânt eu tynnu o gategori dilyniant Estyn.

Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Safonau Ansawdd Lleol yn gyson, rhwng yr ALl ac uwch swyddog GwE, a defnyddir y cyfarfodydd hyn i rannu gwybodaeth am berfformiad a chynnydd ysgol, a chytuno ar unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud i'r cynlluniau cymorth. Mae Byrddau Gwella Carlam Dros Dro yn rhoi her ac ymyrraeth i'r ysgolion hyn sydd mewn catgoriau pryder difrifol. Ble erys pryderon, gweithredir ar lefel uwch allai gynnwys defnyddio pwerau ymyrraeth, fel y diffinnir gan ganllawiau cenedlaethol.

## Sefyllfa bresennol y rhanbarth

Bu proffil arolygiadau ysgolion cynradd ac arbennig yn gyson gryf, ac yn cymharu'n ffafriol gyda phroffil Estyn ar gyfer ysgolion ar draws Cymru. O safbwynt yr ysgolion cynradd a roddwyd mewn categori dros y tair blynedd diwethaf, fe'u tynnwyd oddi yno yn sydyn o ganlyniad i'r her a'r gefnogaeth lefel uchel a dargedwyd.

Erys safonau yn y sector uwchradd yn destun pryder. Dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf, mae GwE wedi:

- ail greu proffil y gwasanaeth i sicrhau bod adnoddau ychwanegol yn cael eu targedu tuag at y sector uwchradd;
- cryfhau'r tîm o YCG cyswllt uwchradd i sicrhau profiad ac arbenigedd perthnasol;
- sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd raglen gymorth generig ac unigryw;
- hwyluso mynediad at y rhwydweithiau cwricwlwm, MAT, ôl-16 a phynciol i rannu arferion da;
- mabwysiadu dull targedu cynhaliaeth ar ffurf 'ton' i sicrhau gwelliannau parhaus mewn pynciau craidd;
- cyfoethogi cynnig GwE o gyfleoedd datblygiad proffesiynol [ac yn arbennig felly i arweinwyr profiadol, newydd a darpar arweinwyr y dyfodol];
- arwain *y fenter Asesu ar gyfer Dysgu* ranbarthol i wella dysgu ac addysgu efo Shirley Clarke;
- sicrhau rhagor o gymorth i benaethiaid drwy gyfarfodydd fforymau strategol, ac i'r ysgolion sy'n cymryd rhan drwy'r fforwm *Rhagoriaeth ac Arloesi* ;
- cefnogi 12 ysgol yn y rhanbarth i ymchwilio i amrywiad mewn ysgol, a rhoi sylw iddo, drwy wella prosesau tracio data ac ymyrraeth. Bydd modd trosglwyddo'r gwersi a ddysgwyd o'r peilot i bob ysgol ar draws yr ALl;
- darparu cymorth ariannol er mwyn gweithredu mewn ffordd fwy diagnostig i sicrhau gwelliannau mewn Saesneg a Mathemateg yn CA4 drwy PIXL;
- darparu hyfforddiant penodol ar gais ysgolion i arweinwyr canol cwricwlwm ac arweinwyr bugeiliol;
- cefnogi hyfforddiant unigryw i ysgolion ac adrannau targed i wella agweddau ar ddysgu ac addysgu, e.e. efo Tom Sherrington, Olevi ITP ac OTP.

Ar ben y gefnogaeth unigryw a ddarparwyd i ysgolion uwchradd yn y pynciau craidd, rhoddwyd arweiniad rhanbarthol a lleol drwy'r rhwydweithiau a'r fforymau pynciol. Dyma rai o'r meysydd allweddol gafodd sylw:


- Saesneg: Cefnogaeth astudio Safon Uwch, Hyfforddiant Darllen Carlam, datblygu llythrennedd ar draws y cwricwlwm, gwella llafaredd i gefnogi ysgrifennu, gwella tracio ac ymyrraeth yn CA4, gwella safonau ysgrifennu yn CA4, arweiniad ar ddarpariaeth MAT mewn Saesneg, datblygu adnoddau e.e. *Adnodd 'Fix-it' i gefnogi'r gwaith atgyweirio sydd ei angen i roi sylw i sgiliau gwan, Pecynnau Meistroli i CA4, Cynllun Gwaith Gothic efo pwyslais ar ramadeg i Flwyddyn 7*
- Mathemateg: arweiniad ar arweinyddiaeth a diweddariadau ar y cwricwlwm newydd, rhannu'r arferion gorau o *Whiterose Maths Academies* ar ddatblygu addysgeg yn eu clwstwr o ysgolion, datblygu addysgeg adrannol drwy 'ddyfnhau'r meddwl', datblygu addysgeg Safon Uwch, cefnogi gwaith cydweithio rhwng cydlynwyr rhifedd i adnabod yr arferion gorau o ran datblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm, datblygu arweinyddiaeth cydlynwyr rhifedd sydd yn eu dwy flynedd gyntaf yn y swydd, datblygu dealltwriaeth o'r newidiadau yn y profion Rhifedd Gweithdrefnol.
- Gwyddoniaeth: rhagori mewn Gwyddoniaeth TGAU - rhannu'r arferion gorau, rhannu strategaethau ymyrraeth llwyddiannus yn CA4, datblygu llythrennedd gwyddonol - ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan Brifysgol Bangor, datblygu strategaethau i ennyn diddordeb dysgwyr mewn Gwyddoniaeth, gweithio gydag ysgolion i ddatblygu gwybodaeth wyddonol a chefnogi disgyblion wrth iddynt ddysgu am gysyniadau gwyddonol, datblygu sgiliau darllen mewn Gwyddoniaeth, rhannu 'strategaethau sut i ddysgu' ac arferion galw i gof, datblygu sgiliau darllen a deall geiriau gorchymyn a dwy haen, datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r manylebau TGAU.

**Symud Ymlaen**

Rydym yn cydnabod bod pob ysgol ar gontinwwm gwella. Mae rhai yn eu dyddiau cynnar ac yn datblygu, mae eraill yn datblygu ac yn cryfhau tra bod ein hysgolion cryfaf yn fwy annibynnol a grymus.

Yn aml, gofynnir i'r Gwasanaeth blethu llu o fetrigau gwella ysgol mewn un diffiniad. Er hynny, mae hi'r un mor bwysig darlunio'r daith nid yn unig y 'ciplun' o ble mae'r ysgol arni ar y daith honno.

Bwriad y diagram canlynol, gan DfE yn Lloegr, yw diffinio'r camau ar hyd taith ysgol, ac mae'n dechrau diffinio taith wella ysgol:




Teimlwn fod y math hwn o ddiagram yn adnodd mwy defnyddiol wrth i ni fod yn trafod lefel a natur ofynnol y gefnogaeth efo ysgolion. O'i weithredu, gall fod yn strategaeth effeithiol hefyd i weld lle mae ysgolion arni ar ddechrau unrhyw duedd 'at i lawr', felly ni fyddai angen iddynt gael eu hadnabod fel '*'ysgolion sy'n achosi pryder.'*

Credwn hefyd y dylai gwaith cefnogi ac ymgysylltu â chymheiriaid fod wrth wraidd gwella ysgol. Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru am system werthuso, gwella ac atebolrwydd yn un sy'n deg, yn gydlynol, yn gymesur, yn dryloyw ac yn seiliedig ar werthoedd cyffredin ar gyfer addysg yng Nghymru. Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn ein hymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid allweddol eraill, i sefydlu trefniadau newydd ar gyfer arfarnu a gwella, a hynny ar bob lefel. Bydd angen i'r trefniadau hyn fod yn ddigon cadarn a chryf i sicrhau'r gwelliannau a fynnir mewn ysgolion, ac yn arbennig felly yn y sector uwchradd. O fewn y trefniadau hyn, mae disgwyliad clir i ysgolion ddatblygu nid yn unig y capasiti a'r sgiliau i herio eu hunain yn effeithiol, ond hefyd y gallu i weithio ar y cyd ac yn systematig mewn model gwella ysgolion yn seiliedig ar ymgysylltiad cymheiriaid proffesiynol.

Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol wedi cynnal proses ymgynghori â Phenaethiaid ar yr amrywiol agweddau ar *y Daith Ddiwygio Genedlaethol* . O ran datblygu fframwaith rhanbarthol ar gyfer cefnogi ac ymgysylltu â chymheiriaid, awgrymodd y penaethiaid yr egwyddorion hyn:

- dylid mabwysiadu dull gweithredu adolygu gan gymheiriaid yn rhanbarthol er mwyn gyrru cynnydd ymhellach tuag at system hunan wella;
- ni ddylid datblygu'r model adolygu gan gymheiriaid hwn i gyflwyno *system o 'ffug arolygiadau'* ;
- dylai rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd yn effeithiol er sicrhau ein bod yn creu'r amodau priodol ar gyfer adolygu gan gymheiriaid sy'n effeithiol;
- dylem gytuno ar set ranbarthol o egwyddorion ac iaith dechnegol ar gyfer ein model, a'u harfer;
- dylem gytuno ar ffiniau'r fframwaith, fydd yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion weithredu ystod o fodelau;
- dylai ysgolion gael rhyddid a hyblygrwydd i ddethol eu cymheiriaid;
- dylai'r model gynnwys ymgysylltu â chymheiriaid ar bob lefel mewn ysgol;
- dylai'r model hybu ymddiriedaeth, gonestrwydd, tryloywder a ffydd broffesiynol;
- dylai ymgysylltu fod yn broses gefnogol a chynaliadwy, yn hytrach nag un digwyddiad beichus, un-tro;
- dylai'r model gefnogi symud diwylliannol tuag at berchenogaeth ar y cyd

Mae Steve Munby a Michael Fullen (2016) yn eu papur '*Inside-out and downside-up*' yn amlinellau y 'ffactorau llwyddiant hanfodol ar gyfer cydweithrediad effeithiol ysgolion ar draws y system gyfan:

- mae'n rhaid mai pwrpas y cydweithredu yw gwella deilliannau;
- mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar bwrpas moesol eglur a rennir;
- mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn hanfodol;
- mae ymrwymiad i, a chapasiti ar gyfer, adolygu effeithiol gan gymheiriaid yn creu'r peiriant sy'n llywio gwelliant;
- mae angen cynnal adolygiadau gan gymheiriaid fel rhan o berthynas hirdymor ac ymrwymiad i wella arferion a systemau yn gyson drwy gylchoedd ymholi ar y cyd;
- mae'n rhaid bod gan y bartneriaeth gynllun i ddatblygu o gydweithrediad i gyfrifoldeb ar y cyd i rannu atebolrwydd proffesiynol;
- dylai'r bartneriaeth fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau;
- mae partneriaethau'n croesawu gwaith craffu a chefnogaeth gan bartneriaethau eraill fel eu cyfraniad at system leol, ranbarthol a chenedlaethol gysylltiedig.

Credwn yn gryf y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid fod yn sail i gylch trylwyr o welliant parhaus, a chynnwys:

- ***Hunan-adolygiad***: dylai adolygu effeithiol gan gymheiriaid ddechrau efo pa mor dda mae'r ysgol yn adnabod ei hun, a chael ei harwain gan yr ysgol sy'n cael ei hadolygu. Dylai'r adnodd hunan arfarnu cenedlaethol a ddatblygwyd gan Estyn/OECD a'r proffesiwn chwarae rhan allweddol yn yr agwedd hon. Dylai hunan arfarnu ganolbwyntio ar y dysgwr, eu cyflawniadau, eu cynnydd a'u profiadau yn yr ysgol, a chanolbwyntio ar ddysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, datblygu diwylliant o ddysgu, lles disgyblion a staff, cydraddoldeb a chynhwysiant. Wrth symud ymlaen, dylai hunan arfarnu hefyd ganolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm newydd ac arfarnu cynnydd yr ysgol tuag at gyflawni'r cwricwlwm newydd. Dylai prosesau hunan arfarnu'r ysgol adael i'r ysgol adnabod cryfderau a blaenoriaethau gwella. Dylai hefyd nodi agweddau ar eu taith wella ble mae angen cymorth gan gymheiriaid i gefnogi gwelliant.

- ***Adolygiad gan gymheiriaid***: mae ffocws cyffredin i'r adolygiadau cymheiriaid mwyaf effeithiol. Rhaid mai pwrpas y cydweithio yw gwella deilliannau a dylai unrhyw ffocws cyffredin fod yn seiliedig ar dystiolaeth gref o'r hyn sydd angen i wella, a pha ddeilliannau fyddai'n elwa'r ysgol fwyaf. Mae adolygwyr cymheiriaid sy'n gweithio fel tîm, neu driawd, yn gweithio orau ble gallant driongli tystiolaeth a dadansoddi eu canfyddiadau ar y cyd. Nid ydynt yno i farnu, ond yn hytrach chwilio am dystiolaeth a chytuno ar ganfyddiadau i'w rhannu efo'r ysgol. Mae'n hanfodol nad yw'r broses adolygu gan gymheiriaid yn dod yn *system o 'ffug arolygiadau'* . Mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar bwrpas moesol eglur a rennir, ble mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn allweddol ac yn greiddiol i'r broses. Dylai'r adolygu gan gymheiriaid hefyd roi cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol, a chynnwys arweinwyr ar bob lefel.

- ***Cymorth Ysgol i Ysgol*** : os yw'r adolygu gan gymheiriaid am fod yn gyfrwng ar gyfer gwelliant parhaus mewn systemau ysgolion, yna rhaid iddo fynd ymhellach na'r adolygiad eu hun, a chynnwys cymorth ysgol i ysgol neu gymorth clwstwr. Ble maï'r staff sy'n berchen ar y deilliannau, bydd yr effaith hirdymor a'r effaith gynaliadwy, yn fwy. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu cynhwysedd a gwella gwydnwch o fewn system sy'n hunan wella. Dylai'r bartneriaeth fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau.

Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol wrthi'n gweithio gydag ysgolion i sefydlu model rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid, sy'n llawn adlewyrchu'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodwyd gan Benaethiaid, ac sydd hefyd yn dysgu o arferion da yn genedlaethol a thu hwnt. Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn ganolog wrth i ni hwyluso a datblygu'r model hwn.

Mae hyn yn cyfleu ein dull gweithredu o fewn agwedd 'atebolrwydd' y daith ddiwygio. Mae'n manylu ar sut y gellir defnyddio gwaith ymgysylltu â chymheiriaid i fod yn sylfaen i gylch trylwyr o ddatblygiad a gwelliant parhaus. Credwn y dylai ymgysylltu â chymheiriaid fod yn rhan ganolog o wella ysgol wrth symud tuag at system hunan wella, tra hefyd yn cynnal yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder.

## 2. SAFONAU

### TROSOLWG O BERFFORMIAD YM MHOB AWDURDOD LLEOL

Adroddiad naratif ar gyfer pob ALl i'w fewnosod, sy'n cynnwys y canlynol:

Arfarnu perfformiad a chwestiynau sy'n codi:

- Y Cyfnod Sylfaen
- Cyfnod Allweddol 2
- Cyfnod Allweddol 3
- Cyfnod Allweddol 4
- Cyfnod Allweddol 5

Proffil Estyn yr ALl

Proffil Categoreiddio yr ALl

Trefniadau monitro yr ALl ar gyfer craffu ar berfformiad ysgolion unigol

Prif feysydd ar gyfer gwelliant yr ALl i'w cynnwys mewn Cynlluniau Busnes Lefel 2

Gweler Atodiad 1 am adroddiad ALl unigol.

## PROFFIL AROLYGIADAU YSGOLION ESTYN

Mae'r proffil arolygiadau ar draws y rhanbarth yn gryf, ar y cyfan.

Cyfuno arolygiadau ysgolion    Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 69 | 82.6 | 57 | 14.5 | 10 | 1.4 | 1 | 1.4 | 1 |
| 17/18 | Cymru | 237 | 75.1 | 178 | 17.3 | 41 | 4.6 | 11 | 3.0 | 7 |
| 18/19 | GwE | 64 | 79.7 | 51 | 17.2 | 11 | 1.6 | 1 | 1.6 | 1 |
| 18/19 | Cymru | 227 | 75.8 | 172 | 19.8 | 45 | 1.8 | 4 | 2.6 | 6 |

Y farn yn yr holl ysgolion 2018-19

| | Safonau | | Llesiant | | Addysgu | | Cymorth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru |
| Rhagorol | 18.8 | 11.5 | 25.0 | 19.8 | 17.2 | 11.9 | 23.4 | 18.9 | 28.1 | 17.2 |
| Da | 62.5 | 65.2 | 67.2 | 67.4 | 62.5 | 62.1 | 71.9 | 70.9 | 51.6 | 58.6 |
| Digonol | 15.6 | 21.1 | 7.8 | 12.3 | 20.3 | 24.2 | 4.7 | 8.4 | 18.8 | 20.7 |
| Anfoddhaol | 3.1 | 2.2 | 0.0 | 0.4 | 0.0 | 1.8 | 0.0 | 1.8 | 1.6 | 3.6 |

Arolygiadau Ysgolion Cynradd   Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 59 | 86.4 | 51 | 11.9 | 7 | 1.7 | 1 | 0.0 | 0 |
| 17/18 | Cymru | 200 | 80.5 | 161 | 14.5 | 29 | 3.5 | 7 | 1.5 | 3 |
| 18/19 | GwE | 54 | 88.9 | 48 | 11.1 | 6 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 18/19 | Cymru | 188 | 80.9 | 152 | 16.5 | 31 | 0.5 | 1 | 2.1 | 4 |

Arolygiadau Ysgolion Uwchradd/Pob Oedran Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 7 | 57.1 | 4 | 28.6 | 2 | 0.0 | 0 | 14.3 | 1 |
| 17/18 | Cymru | 30 | 50.0 | 15 | 33.3 | 10 | 10.0 | 3 | 6.7 | 2 |
| 18/19 | GwE | 8 | 12.5 | 1 | 62.5 | 5 | 12.5 | 1 | 12.5 | 1 |
| 18/19 | Cymru | 32 | 43.8 | 14 | 40.6 | 13 | 9.4 | 3 | 6.3 | 2 |

Arolygiadau Ysgolion Arbennig/UCD   Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 3 | 66.7 | 2 | 33.3 | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 17/18 | Cymru | 7 | 28.6 | 2 | 28.6 | 2 | 14.3 | 1 | 28.6 | 2 |
| 18/19 | GwE | 2 | 100.0 | 2 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 18/19 | Cymru | 7 | 85.7 | 6 | 14.3 | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |

Y farn mewn ysgolion Cynradd 2018-19

| | Safonau | | Llesiant | | Addysgu | | Cymorth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru |
| Rhagorol | 20.4 | 10.1 | 27.8 | 19.1 | 18.5 | 11.2 | 25.9 | 17.6 | 31.5 | 17.6 |
| Da | 70.4 | 71.3 | 68.5 | 72.3 | 72.2 | 66.5 | 72.2 | 76.1 | 57.4 | 63.3 |
| Digonol | 9.3 | 18.1 | 3.7 | 8.5 | 9.3 | 21.3 | 1.9 | 4.8 | 11.1 | 16.5 |
| Anfoddhaol | 0.0 | 0.5 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 1.1 | 0.0 | 1.6 | 0.0 | 2.7 |

**Cynradd** - O'r 54 o ysgolion cynradd a arolygwyd yn 2018/19, barnwyd nad oedd angen dilyniant ar 48 (88.9%) o gymharu â 86.4% yn 2017/18 sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 80.9%. Roedd ar 6 ysgol (11.1%) angen gweithgarwch dilynol o gymharu â 13.6% yn 2017-18. Dyfarnwyd y categori dilyniant lleiaf dwys i bob un, sef Adolygu gan Estyn. Ar hyn o bryd, mae 8 ysgol mewn categori dilyniant a dim ond 1 ysgol sydd mewn Categori Statudol (gwelliant sylweddol) ar hyn o bryd. Cynyddodd canran yr ysgolion yn cael barn ragorol yn sylweddol, o 13.2% yn 2017/18 i 24.8% yn 2018/19.

**Uwchradd** - o'r 8 ysgol a arolygwyd, nid oedd angen unrhyw ddilyniant mewn un, barnwyd bod 5 yn y categori dilyniant lleiaf dwys [adolygu gan Estyn] tra gosodwyd dwy mewn mesurau arbennig [un GS a'r llall MA]. Roedd y ddwy ysgol hyn eisoes wedi'u hadnabod fel 'risg uchel' yn ein proffil. Barnwyd bod 5 ysgol yn Dda ym maes arolygu 2 [lles ac agweddau at ddysgu] tra barnwyd bod 6 ysgol yn Dda ym maes arolygu 4 [gofal, cymorth ac arweiniad]. Barnwyd bod un ysgol yn 'anfoddhaol' ym maes arolygu 5 [arweinyddiaeth]. Ni ddyfarnwyd 'rhagorol' i'r un ysgol yn unrhyw un o'r meysydd arolygu.

Yn ôl proffil presennol y rhanbarth, gwelir bod 6 ysgol uwchradd mewn categori statudol. Mae gan bob ysgol CGOA cyfansawdd ac mae Estyn wedi cadarnhau cynllun cymorth yr ALl. Ar hyn o bryd, gwelir bod pob ysgol yn gwneud cynnydd cyson tuag at y rhan fwyaf o'u hargymhellion. Mae pob ysgol hefyd yn cael ymweliadau monitro yn rheolaidd, a rhoddir gwybod i swyddogion yr awdurdod lleol perthnasol o'r cynnydd a wneir, ac fe dynnir eu sylw at unrhyw bryderon sy'n codi. Mae 7 arall mewn categori dilyniant Adolygu gan Estyn efo disgwyliad clir y tynnir 3 o'r ysgolion o'r categori erbyn diwedd mis Tachwedd.


**Arbennig - Proffil cryf ar draws y meysydd arolygu, gydag un ysgol a arolygwyd yn 2018/19 yn 'dda' ym mhob maes arolygu ac ni chafodd ei gosod mewn categori dilyniant.** Erys un ysgol mewn categori dilyniant Adolygu gan Estyn.


## CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL

**Pob ysgol**

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi parhau i ostwng, o 14.6% yn 16/17, 11.6% yn 17/18 i 8.0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel D wedi gostwng, o 2.4% yn 17/18 i 1.5% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi codi, o 27.5% yn 16/17, 34.0% yn 17/18 i 41.7% yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 eto wedi gostwng, o 18.8% yn 16/17, 14.9% yn 17/18 i 9.2% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn goch wedi gostwng, o 3.1% yn 17/18 i 1.9% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd wedi parhau i godi, o 19.7% yn 16/17 i 36.4% yn 18/19.








**Cynradd**

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi parhau i ostwng, o 11.0% yn 16/17, 8.0% yn 17/18 i 5.4% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel D wedi gostwng, o 1.4% yn 16/17 i 0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi codi'n sylweddol, o 28.2% yn 16/17, 35.5% yn 17/18 i 44.1% yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 eto wedi gostwng, o 15.2% yn 16/17, 11.6% yn 17/18 i 6.6% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn goch wedi gostwng, o 1.7% yn 17/18 i 0.0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 20.2% yn 16/17, 30.7% yn 17/18 i 38.1% yn 18/19.








**Uwchradd**

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi gostwng, o 36.4% yn 16/17, 35.2% yn 17/18 i 24.1% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel D wedi aros yn eithaf cyson, 9.1% yn 16/17 (5 ysgol), 11.1% (6 ysgol) yn 17/18 a 11.1% (6 ysgol) yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi codi, o 21.8% yn 16/17 i 24.1% yn 18/19.


Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 wedi gostwng, o 37.0% yn 17/18 i 25.9% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn goch wedi codi fymryn, o 13.0% yn 17/18 (7 ysgol) i 14.8% yn 18/19 (8 ysgol). Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 13.0% (7 ysgol) yn 17/18 i 24.1% (13 ysgol) yn 18/19.




**Arbennig**
Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 yr un fath, 11.1% (1 ysgol) ar ôl gostwng o 22.2% (2 ysgol) yn 2016-17. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei chategoreiddio fel Gradd D yn 17/18 nac yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi parhau i godi, o 33.3% (3 ysgol) yn 16/17 i 44.4% (4 ysgol) yn 17/18 i 55.6% (5 ysgol) yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 yr un fath, ar 11.1%, ar ôl gostwng o 22.2% (2 ysgol) yn 16/17. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei chategoreiddio yn goch yn 17/18 nac yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd yr un fath, ar 44.4% (4 ysgol), ar ôl codi o 33.3% (3 ysgol) yn 16/17.



## 3. CWESTIYNAU SY'N DOD I'R AMLWG I HELPU'R CYD-BWYLLGOR, SWYDDOGION ALL A PHWYLLGORAU CRAFFU I ARFARNU CYNNYDD, SAFONAU A PHERFFORMIAD DISGYBLION.

### Asesiadau Athro

- Pam y mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3 yn ymddangos yn is yn y ddwy flynedd ddiwethaf?
- Pam y mae proffil rhanbarthol ESTYN a gweithgarwch casglu gwybodaeth GwE yn gwrth-ddweud deilliannau sy'n gostwng yn y Cyfnod Sylfaen?
- Pa mor effeithiol y dadansoddir ac yr adroddir am gynnydd a data gwerth ychwanegol er mwyn cryfhau perfformiad a gwella safonau?
- I ba raddau mae ysgolion yn olrhain asesu yn rymus, a hynny ar gyfer dysgwyr o bob oedran?
- Sut y mae ysgolion yn defnyddio data asesu gwaelodlin i dargedu a chynllunio ymyrraeth?
- A yw dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr yn cael eu hadnabod yn gywir a'u cefnogi'n effeithiol?
- A yw ysgolion wedi datblygu trefniadau hunan arfarnu effeithiol sydd yn mynd y tu hwnt i ddata perfformiad diwedd cyfnod allweddol er mwyn adnabod yr hyn maen nhw'n wneud yn dda a'r hyn sydd angen newid?
- Pa gamau gweithredu y mae arweinwyr yn rhoi sylw iddynt gyda dosbarthiadau sy'n tanberfformio yn barhaus?
- Pa mor gadarn yw gweithdrefnau safoni mewnol a chymedroli clwstwr mewn ysgolion?
- Pa brosesau monitro sydd ar waith i sicrhau bod ysgolion yn gosod targedau priodol?
- A yw ysgolion yn sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, ac nid â'u holl fryd ar set gul o bynciau a meysydd dysgu?
  Pa ddata ysgol ellir ei ddefnyddio at ddibenion hunan arfarnu Awdurdod Lleol a sut gellir cyflwyno hwn?

### Cyfnod Allweddol 4

- I ba raddau mae pob ysgol yn croesawu'r newid cenedlaethol mewn cyfeiriad ac ymddygiad er mwyn datblygu i'r eithaf berfformiad disgyblion unigol ar draws yr ystod gallu? A oes gan arweinwyr ysgolion weledigaeth glir o ran beth i'w newid a pham?
- A yw pob ysgol wedi datblygu trefniadau hunan arfarnu effeithiol sydd yn mynd y tu hwnt i ddata perfformiad arholiadau er mwyn adnabod yr hyn maen nhw'n wneud yn dda a'r sydd angen newid?
- Pa mor briodol y gweithredir cwricwlwm ysgolion ar draws y rhanbarth? A yw pob ysgol wedi arfarnu'n rymus effaith a chyfraniad pynciau di-graidd unigol yn y mesur C9 diwygiedig? A gefnogir hyn gan arweinwyr yn defnyddio diweddariadau bwletin Llywodraeth Cymru yn effeithiol ac yn amserol?
- A yw prosesau atebolrwydd a SA mewnol presennol yn ddigon cadarn i sicrhau perfformiad cyson gan ddisgyblion unigol yn eu dewisiadau h.y. a yw arweinwyr yn mynd i'r afael ag Amrywiad mewn Ysgol yn effeithiol?
- Pa gamau gweithredu y mae arweinwyr yn rhoi sylw iddynt gydag adrannau sy'n perfformio'n well na chyfartaled yr ysgol a chyda'r rhai hynny sy'n tanberfformio?
- I ba raddau mae tystiolaeth bod adrannau unigol yn dadansoddi'r data a rennir gan CBAC ar berfformiad pynciol?
- I ba raddau mae staff adrannol, yn yr holl bynciau, yn deall y pwysoliad asesu ar gyfer pob manyleb? Sut y mae hyn yn cael effaith effeithiol ar eu cynllunio a'u darpariaeth ac ar y ddealltwriaeth o raddio, dyfarnu ac adrodd ble bo'n berthnasol?

- I ba raddau mae adrannau yn defnyddio'n effeithiol adroddiad y Prif Arholwr, sy'n nodi cryfderau a gwendidau mewn perfformiad?
- Mae gan lawer o ysgolion athrawon sy'n marcio papurau arholiad CBAC. I ba raddau y defnyddir eu harbenigedd yn llawn mewn ac ar draws ysgolion?
- Pam y mae perfformiad mewn Saesneg wedi gostwng yn sylweddol mewn nifer o adrannau ble bu perfformiad cryf yn hanesyddol?
- Pam y mae amrywiad mewn nifer o ysgolion rhanbarthol rhwng perfformiad mathemateg a mathemateg-rhifedd?
- Pa mor dda y mae'r strategaethau 14-19 lleol presennol yn sicrhau y defnyddir cyllid yn effeithiol i gyflwyno profiadau a chymwysterau priodol i grwpiau o ddisgyblion sydd wedi'u targedu, ac i ba raddau maen nhw'n cyfrannu at y mesurau interim diwygiedig ym mhob awdurdod lleol?
- A ydym ni'n hyderus bod y newid cenedlaethol mewn cyfeiriad wedi cael digon o effaith ar y ddarpariaeth leol ar gyfer disgyblion gaiff addysg heblaw yn yr ysgol? (EOTAS). I ba raddau mae eu perfformiad yn 2019 wedi cael effaith ar ddeilliannau awdurdod lleol?
- A ydym ni'n hyderus bod y newid cenedlaethol mewn cyfeiriad wedi cael digon o effaith ar y ddarpariaeth leol ar gyfer Ysgolion Arbennig (145 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11) ac Unedau? I ba raddau mae eu perfformiad yn 2019 wedi cael effaith ar ddeilliannau awdurdod lleol?
- Mae 247 o ddisgyblion EOTAS Blwyddyn 11 yn y rhanbarth - trwy eu grwpio gyda'i gilydd mae hon yn garfan fwy na'r un sydd gennym mewn unrhyw ysgol. I ba raddau mae arweinwyr a staff mewn UauCD yn cael eu cefnogi a'u sgilio i nodi'n glir sut i ddatblygu i'r eithaf berfformiad disgyblion unigol ar draws y mesurau perfformiad diwygiedig?

## 4. BLAENORIAETHAU CYNLLUN BUSNES 2019-20

Mae'r prif feysydd i'w datblygu, a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu yn flaenoriaethau yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2019-2020.

Cymeradwyodd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor ein hamcanion strategol a'n blaenoriaethau ar gyfer 2019-20. Mae chwe adran i'r Cynllun Busnes, ac mae'n cyd-fynd ag 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'. Nodir yn glir cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda gweddnewid.

Mae'r Cynllun Busnes yn cysylltu â chynlluniau gwasanaeth manylach, efo targedau mesuradwy ar gyfer gwelliant a meini prawf llwyddiant pendant er mwyn gallu mesur cynnydd y rhanbarth yn union. Adroddir ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes bob chwarter, yn unol â'r Fframwaith Atebolrwydd (Atodiad 3).

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r Arweinwyr Craidd. Ym mhob cynllun, nodir yn fanwl y materion allweddol o fewn yr awdurdod lleol, ynghyd â chynllun gwella unigryw i roi sylw i'r heriau penodol. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei adolygu'n gyson.

Dyma ein hamcanion strategol ar gyfer 2019-20:

1: **Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel:**

- Sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'n hollbwysig cyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad.

2: **Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau:**

- Sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel er mwyn ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio er sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.

**3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles:**

- Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.

**4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella system sy'n hunan wella:**

- Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu grymus a gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn ar waith. Sicrhau bod gan arweinwyr ac athrawon y sgiliau, y gallu a'r ymrwymiad i ddysgu yn barhaus ac i wella eu harfer fel bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.

**5: Cwricwlwm sy'n Gweddnewid**

- Sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy’n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gyflawni cymwysterau sy’n ei alluogi i fod yn ddysgwr galluog, uchelgeisiol sy’n cyrraedd ei botensial.

**6: Busnes**

- Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

Dyma ein prif flaenoriaethau gwella ar gyfer 2019-20:

**1: Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel:**

1.1 Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd
1.2 Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr
1.3 Cefnogi Prifysgol Bangor a Chaer i ddatblygu darpariaeth AGA o safon uchel

**2: Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau:**

2.1 Darparu rhaglenni datblygu ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel
2.2 Cefnogi ysgolion uwchradd i wella perfformiad arweinyddiaeth ganol
2.3 Datblygu model ymgysylltu â chymheiriaid efo ysgolion i sicrhau bod hunan arfarnu a chynllunio gwelliant yn gadarn ar bob lefel

**3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles:**

3.1 Cefnogi strategaeth dysgwyr bregus
3.2 Datblygu ymhellach y strategaeth PMG
3.3 Gweithio efo ALl ac ysgolion i baratoi ar gyfer trawsnewid Anghenion Dysgu Arbennig yn y ffordd orau

**4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system sy’n hunan wella:**

Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd

4.1 Datblygu systemau olrhain ac asesu
4.2 Datblygu atebolrwydd a systemau rheoli
4.3 Datblygu ymhellach trefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant cadarn

**5: Cwricwlwm sy'n gweddnewid:**

5.1 Paratoi cwricwlwm sy'n gweddnewid
5.2 Gwella ansawdd yr addysgu, gan ystyried y 12 egwyddor addysgegol (Dyfodol Llwyddiannus)

**6: Busnes:**

6.1 Cynnal adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu.

## Atodiad 1

**Adroddiad ar Safonau yn ALl Ynys Môn**

**Newidiadau i'r Meysydd Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen**

Ym mis Hydref 2014, adolygwyd Meysydd Dysgu (MD) y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol i gyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh), yn ogystal â'u gwneud yn fwy heriol. Yn unol â hyn, ailbennwyd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen i gyd-fynd â disgwyliadau uwch y Meysydd Dysgu diwygiedig.

Roedd y MD diwygiedig yn statudol o fis Medi 2015. Golyga hyn mai'r garfan a ddechreuodd yn y dosbarth Derbyn ym mis Medi 2015 oedd y garfan gyntaf i'w hasesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau diwygiedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn haf 2018. Gellir cymharu â pherfformiad blaenorol am y tro cyntaf yn 2019. Fodd bynnag, ymddengys bod y gwaith o ad-drefnu ac ailaddasu'r asesiad diwedd Cyfnod Sylfaen yn dal i fynd rhagddo, yn unol â disgrifyddion deilliant newydd. Felly, fel y llynedd, dylid osgoi cymharu deilliannau Cyfnod Sylfaen mewn iaith a mathemateg â rhai'r blynyddoedd blaenorol ar lefel ysgol, gan nad ydynt wedi'u mesur ar sail gymaradwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn glir y bydd y ffocws ar gynnydd dysgwyr o'r asesiad gwaelodlin i ddiwedd Cyfnod Allweddol. Felly, am y tro cyntaf, byddwn yn cynnwys hyn yn ein hadrodd diwedd blwyddyn.

**Y Cyfnod Sylfaen**

Yn gyffredinol, o ystyried cynnydd dysgwyr a deilliannau arolygiadau ESTYN, mae safonau'r Cyfnod Sylfaen yn ALl Ynys Môn yn foddhaol. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, ac wedi bod felly ers tair blynedd. Fel y rhagwelwyd yn eang, yn dilyn gweithredu'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen newydd, gwelwyd gostyngiad yn 2018-19 yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau disgwyliedig ar hyd a lled Cymru. Roedd perfformiad yr Awdurdod Lleol yn adlewyrchu hyn yn y DCS ac ym mhob Maes Dysgu.

Mae effaith y gostyngiad sylweddol yn y Gymraeg D5+ wedi effeithio ar berfformiad yn y DCS hefyd. Y prif reswm am hyn yw fod nifer o ysgolion yn adrodd ar y Gymraeg fel iaith gyntaf eleni ac yn 2018 o'i gymharu ag ail iaith yn 2017.

Gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer y dysgwyr sy'n cyflawni'r deilliannau uwch yn genedlaethol. Unwaith eto, adlewyrchwyd hyn yn neilliannau ysgolion ALl Ynys Môn. Roedd deilliannau ysgolion Ynys Môn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob Maes Dysgu.

Unwaith yn rhagor, fel y rhagwelwyd yn eang, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn 2018-19 yng nghanran y disgyblion hPYD sy'n cyflawni'r deilliannau disgwyliedig yn ALl Ynys Môn, a hynny yn y DCS a'r Gymraeg yn benodol. Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y dysgwyr hPYD sy'n cyflawni'r deilliannau uwch ar draws y Meysydd Dysgu hefyd.

Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn Ynys Môn yn debyg i'r gwahaniaeth a welwyd y llynedd, gyda merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ym mhob Maes Dysgu o tua 14%. Gwelir yr eithriad i hyn ar y deilliannau uwch, ble mae bechgyn yn perfformio ychydig yn well na merched mewn Datblygiad Mathemategol. Mae'r cyfartaleddau cenedlaethol hefyd ddangos patrwm tebyg i Ynys Môn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn glir mai ar gynnydd Gwerth Ychwanegol rhwng y gwaelodlin a diwedd y Cyfnod Sylfaen y dylid canolbwyntio arno wrth arfarnu cyflawniad

disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cynnydd disgyblion cyfatebol o garfan dosbarthiadau Derbyn 2017 ALl Ynys Môn rhwng y gwaelodlin a diwedd y Cyfnod Sylfaen 2019 yn dda. Gwna ddisgyblion gynnydd cyfartalog o 3.28 deilliant o leiaf, ym mhob maes. Gwelir y cynnydd mwyaf mewn Cymraeg Iaith, gyda disgyblion yn gwneud cynnydd o 3.67 deilliant ar gyfartaledd. Mae disgwyl i ddisgyblion wneud cynnydd o 3.0 deilliant yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Mae'r data Gwerth Ychwanegol hwn yn cadarnhau bod ysgolion yr Awdurdod Lleol yn arddangos dull effeithiol a chyson o gefnogi disgyblion i wneud cynnydd drwy gydol y Cyfnod Sylfaen.

Cwestiynau sy'n dod i'r amlwg

- Pam y mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn is ym mhob MD ar y deilliant disgwyliedig yn y ddwy flynedd ddiwethaf?
- Pam y mae deilliannau uwch yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob Maes Dysgu?
- Pam y mae deilliannau disgyblion hPYD wedi gostwng yn sylweddol mewn Cymraeg Iaith ac ar draws y Meysydd Dysgu o ran yr uwch lefelau?
- A yw'r asesiad diwedd Cyfnod Sylfaen yn fanwl gywir a chadarn yn ysgolion Ynys Môn?
- A yw'r asesiad gwaelodlin yn fanwl gywir a chadarn yn ysgolion Ynys Môn?

**Cyfnod Allweddol 2**

Yn gyffredinol, o ystyried cynnydd dysgwyr a deilliannau arolygiadau ESTYN, mae safonau yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ysgolion Ynys Môn yn dda.

Mae’r Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) islaw’r cyfartaledd cenedlaethol am yr ail flwyddyn yn olynol.

O ystyried data lefelau disgwyliedig, roedd perfformiad carfan 2019 yn cymharu’n debyg i’r cyfartaledd cenedlaethol ac i gyfartaledd canlyniadau blynyddoedd flaenorol yn Ynys Môn o ran y Saesneg, Mathemateg a’r Gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae’r canlyniadau Cymraeg yn sylweddol is na’r cyfartaledd Cenedlaethol ac wedi gostwng eto o gymharu a chanlyniadau 2018.

Roedd perfformiad ysgolion Ynys Môn ar y lefelau uwch hefyd yn cymharu’n debyg i’r cyfartaledd cenedlaethol mewn Saesneg a mathemateg, a mymryn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol mewn gwyddoniaeth. Mae safonau cyrhaeddiad mewn Cymraeg yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol am yr ail flynedd yn olynol.

Gwelwyd ychydig o ostyngiad yng nghanran y disgyblion hPYD a gyflawnodd y deilliannau disgwyliedig ar draws yr Awdurdod yn 2019 o ran y DPC. Mae cyfartaledd canlyniadau Saesneg a mathemateg y disgyblion hPYD yn gyson a chyfartaledd 2018, gyda chyfartaledd gwyddoniaeth ychydig yn is. Mae gostyngiad yng nghyfartaledd canlyniadau’r Gymraeg o gymharu a chanlyniadau 2018 ac yn sylweddol is na chanlyniadau 2017.

Ar y lefelau uwch, gwelwyd gwelliant ym mherfformiad disgyblion hPYD Ynys Môn mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu a 2018. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad bychan yn nifer y disgyblion hPYD a gyflawnodd y deilliannau uwch mewn Cymraeg am yr ail flwyddyn yn olynol. Yn Genedlaethol, mae’r cyfartaleddau ar gyfer perfformiad disgyblion hPYD yn dangos gostyngiad cyffredinol ac mae disgyblion hPYD Ynys Môn yn cymharu cystal neu’n well ym mhob pwnc ond am y Gymraeg.

Gwelwyd gostyngiad ym mherfformiad bechgyn ar y lefelau disgwyliedig yn y DPC, ac mae'r bwlch bechgyn/merched ar gynnydd o gymharu a 2018. Mae'r gwahaniaeth mwyaf mewn perfformiad yn y pynciau craidd i weld yn y canlyniadau Saesneg eleni.

O ran y lefelau uwch, mae'r bwlch bechgyn/merched wedi lleihau mewn Cymraeg, ond wedi cynyddu mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r gwahaniaeth mwyaf mewn perfformiad yn y pynciau craidd o ran yr uwch lefelau i weld yn y canlyniadau Saesneg hefyd eleni. O gymharu, mae'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer perfformiad bechgyn/merched ar yr uwch lefelau eleni yn dangos cynnydd cyffredinol yn y gwahaniaeth ar draws y pynciau.

Fel gyda'r Cyfnod Sylfaen, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn glir mai ar gynnydd Gwerth Ychwanegol rhwng diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2 y dylid canolbwyntio arno wrth arfarnu cyflawniad disgyblion. Mae cynnydd disgyblion cyfatebol o garfan Cyfnod Sylfaen 2015 Ynys Môn i ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 2019 yn gadarnhaol ar y cyfan. Ar gyfartaledd, gwnaeth disgyblion 2.14 lefel o gynnydd mewn Saesneg a 2.13 lefel o gynnydd mewn mathemateg. Fodd bynnag, 1.90 lefel o gynnydd gwnaethpwyd mewn Cymraeg. Mae disgwyl i ddisgyblion wneud cynnydd o 2.0 lefel yn ystod Cyfnod Allweddol 2. Mae'r data Gwerth Ychwanegol hwn yn cadarnhau bod ysgolion yr Awdurdod Lleol yn arddangos dull effeithiol a chyson ar y cyfan o gefnogi disgyblion i wneud cynnydd drwy gydol Cyfnod Allweddol 2.

Dilyswyd cymedroli i fod yn fanwl gywir a chadarn ym mron bob ysgol gynradd yn Ynys Môn, gydag anghytundeb ar lefelau mewn nifer fach o ysgolion yn unig. Mae ysgolion cynradd unigol yn tracio data cynnydd yn drylwyr ac yn dwyn staff i gyfrif am ddeilliannau.

**Cwestiynau sy'n dod i'r amlwg:**

- Pam fod asesiadau'r Gymraeg yn CA2 wedi gostwng yn sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf?
- Beth sydd wedi arwain at y cynnydd yng nghanlyniadau lefelau uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu a 2018?
- Pam fod asesiad DPC CA2 ar gyfer dysgwyr PYD ar ei isaf ers o leiaf 6 blynedd?
- Pam fod gwahaniaeth gynyddol rhwng perfformiad DPC bechgyn a merched yn CA2 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol? Pam fod gwahaniaeth gynyddol rhwng perfformiad Saesneg bechgyn a merched o ystyried y lefelau disgwyliedig a'r uwch lefelau yn CA2 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol?

**Cyfnod Allweddol 3**

Mae canlyniadau eleni yn dechrau adlewyrchu'r newidiadau cenedlaethol, lle mae prif ffocws asesiad athro yn dechrau symud yn ôl at gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr unigol, ac oddi wrth ddefnyddio setiau data wedi'u cyfuno i ddwyn ysgolion i gyfrif.

Yn genedlaethol, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, o leiaf, yn is na 2018 yn y DPC ac ym mhob pwnc craidd.

Mae DPC Môn fymryn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda gostyngiad o 4.4% o gymharu â pherfformiad 2018 [-1.9% yn genedlaethol]. Roedd perfformiad carfan 2019 ar y lefel ddisgwyliedig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mron pob un o'r pynciau craidd ac eithrio Saesneg. Roedd perfformiad mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yn is na 2018 ac yn dangos cwymp o -2.1% (-2.2% yn genedlaethol); Saesneg yn is na 2018 ac yn dangos cwymp o -3.7% (-1.1% yn genedlaethol); Mathemateg yn is na 2018 ac yn dangos cwymp o -3.3% (-1.3% yn genedlaethol); Gwyddoniaeth yn is na 2018 ac yn dangos cwymp o -1.8% (-1.3% yn genedlaethol). Ac eithrio Cymraeg, mae perfformiad yn y pynciau craidd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2019. Mae perfformiad ar y lefelau uwch yn gyson â'r gostyngiad

cenedlaethol mewn Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, ond yn dangos cwymp o -6.6% mewn Saesneg o'i gymharu â -1% yn genedlaethol. Mae'r perfformiad ar y lefelau uwch yn uwch na'r perfformiad cenedlaethol mewn Cymraeg ond yn is yng ngweddill y pynciau craidd. Gwelwyd cwymp ym mherfformiad y bechgyn a'r merched yn y DPC ac ar draws y pynciau craidd yn 2019. Mae perfformiad y bechgyn yn y DPC, Cymraeg a Gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae eu perfformiad yn hafal â'r cenedlaethol mewn Mathemateg. Mae perfformiad merched Môn yn uwch na'r cyfartaledd yn y DPC ac ym mhob pwnc craidd. Mae perfformiad y bechgyn ar y lefelau uwch mewn Mathemateg wedi gwella eleni ond wedi gostwng yng ngweddill y pynciau craidd. Mae perfformiad merched ar y lefelau uwch wedi gostwng ym mhob un o'r pynciau craidd. Mae perfformiad y bechgyn a'r merched ar yr uwch lefelau yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn Y Gymraeg ond yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae'r merched yn perfformio yn well na'r bechgyn ym mhob un o'r pynciau craidd gyda'r bwlch mwyaf ym mherfformiad y rhywiau i'w gweld ar y lefelau uchaf yn Y Gymraeg gyda'r merched yn perfformio yn well o +20.7% na'r bechgyn (23% yn genedlaethol), a Saesneg +19.6% (18.1% yn genedlaethol). Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn 2019 yn debyg i'r hyn welwyd yn 2018 ar y lefelau uchaf, ond wedi cynyddu ar y lefel ddisgwyliedig.

Gwelwyd cynnydd yng nghanran y disgyblion PYD a gyflawnodd y deilliannau disgwyliedig ar draws yr Awdurdod yn 2019 mewn Cymraeg, gyda gostyngiad yng ngweddill y pynciau craidd a'r DPC. Ar y lefelau uwch mae gwelliant ym mherfformiad disgyblion PYD yn Y Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ond cwymp mewn Saesneg. Mae'r bwlch rhwng perfformiad dysgwyr PYD a dim PYD yn sylweddol ar draws yr holl ddangosyddion.

**Cwestiynau sy'n dod i'r amlwg:**

- Pam y mae perfformiad ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch dal yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer bron pob pwnc craidd?
- Pam y bu gostyngiad ym mherfformiad bechgyn mewn Cymraeg, Saesneg, a gwyddoniaeth ar y lefelau uwch?
- Pam y bu gostyngiad ym mherfformiad y merched ar y lefelau uwch ym mhob pwnc craidd?
- Pam bod y merched yn perfformio yn well na'r bechgyn ar y lefelau uchaf yn y ddwy iaith?
- Pam bod bwlch sylweddol rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD?
- Pa agweddau ar arferion gorau yr adrannau/dosbarthiadau sy'n perfformio orau sydd angen eu rhaeadru, a beth yw'r ffordd orau o hwyluso'r broses hon?

**Cyfnod Allweddol 4**

**Cyd-destun**

Roedd carfan ysgol Blwyddyn 11 yn cynnwys:

- 12 o ddisgyblion mewn UCD/darpariaeth EOTAS [mae perfformiad y grŵp wedi'i gynnwys yn holl ddata'r ALI]
- 89 disgybl PYD. Roedd niferoedd mewn ysgolion unigol yn amrywio o 11-23. Yn naturiol, dylid ystyried maint y garfan wrth ddadansoddi perfformiad ar lefel ysgol unigol.
- Mae gan 3 ysgol uwchradd % PYD sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16.5% ac mae dwy ysgol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Capio 9**

Mae perfformiad yr ALI yn y prif ddangosydd [Capio 9] +2.35pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 353.3pt. Mae perfformiad dwy o'r ysgolion yn gryf (Ysgol C ac Ysgol D) ac uwchben y cyfartaledd cenedlaethol a'r perfformiad a fodelwyd. Mae perfformiad 2019 yr Awdurdod yn is na'r perfformiad disgwyliedig o -11.28pt, gyda dwy ysgol (Ysgol A ac Ysgol E) yn sylweddol is na'r perfformiad disgwyliedig.

Mae perfformiad bechgyn a merched yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer 2019. Mae'r bwlch perfformiad wedi lleihau rhwng y rhywiau ar gyfer eleni. Roedd perfformiad merched yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 370.4pt mewn 2 ysgol (Ysgol C ac Ysgol Ch) a pherfformiad y bechgyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 337.29pt mewn 3 ysgol ( Ysgol C, D a E). Lleihawyd y bwlch perfformiad rhwng y rhywiau ym mhob un o'r ysgolion o gymharu â 2018.

Mae perfformiad disgyblion PYD a dim PYD yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda'r bwlch wedi cynyddu fymryn o gymharu gyda pherfformiad 2018. Fodd bynnag, mae'n parhau yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (-72.1pt o gymharu â -77.06pt yn genedlaethol). O'r 5 ysgol uwchradd, mae gan 3 ohonynt %PYD sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16.5%. Yn 2019, roedd perfformiad 2 ysgol (Ysgol C a D) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD wedi cynyddu mewn 3 ysgol (Ysgolion A,B ac E).

**Dangosydd Llythrennedd**

Mae perfformiad yr All yn y dangosydd 0.06pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 38.96pt ac yn cyd-fynd gyda'r perfformiad disgwyliedig. Mae perfformiad bechgyn a merched yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2019 (-0.1pt a 1.75pt yn y drefn honno). Mae'r bwlch rhwng y rhywiau wedi cau yn 2019 ac mae'n llai na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae perfformiad disgyblion PYD ym Môn yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD yn llai ym Môn nag yn genedlaethol.

O'r 5 ysgol uwchradd, roedd 3 (Ysgolion C,D ac E) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda pherfformiad 1 (Ysgol C) yn uwch na'r perfformiad disgwyliedig. Roedd perfformiad bechgyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 36.3 mewn 4 ysgol (Ysgolion C,D,E), a pherfformiad y merched yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 41.78pt mewn 2 ysgol (Ysgol C a D). Roedd perfformiad disgyblion PYD yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 32.5pt mewn 3 ysgol (Ysgolion C,D, E). Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD wedi lleihau fymryn o gymharu â pherfformiad 2018.

Yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, roedd perfformiad yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o -2.6pt. Roedd bwlch o -3.1 rhwng y rhywiau o gymharu â -4.1pt yn genedlaethol. Roedd perfformiad disgyblion PYD yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o -2.6pt. Roedd y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer Cymraeg Llên hefyd yn is na'r ffigwr cenedlaethol o -2.3pt. Roedd llai o fwlch rhwng perfformiad y rhywiau ym Môn (-2.1pt) nag yn genedlaethol (-4.2pt). Roedd perfformiad disgyblion PYD yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol [-3.6pt].

Yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer Saesneg, roedd perfformiad -1.3pt yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol gyda -1.3pt o fwlch rhwng y rhywiau o gymharu â bwlch cenedlaethol o -5.2pt.

Roedd perfformiad disgyblion PYD ychydig yn is na'u cyfoedion cenedlaethol o -0.2pt. Mewn Saesneg Llên, roedd perfformiad -0.7pt yn is na'r cenedlaethol gyda bwlch o -3pt rhwng y rhywiau (-4.2pt yn genedlaethol). Roedd perfformiad disgyblion PYD yn +1.3pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Dangosydd Rhifedd**

Mae perfformiad yr ALI yn y dangosydd +0.32 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 37.1pt, ac yn gyfartal â'r perfformiad disgwyliedig. Mae perfformiad bechgyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o +0.15pt a pherfformiad y merched ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o -1.56pt. Mae'r bwlch rhwng y rhywiau wedi lleihau eleni ac yn well na'r

cyfartaledd cenedlaethol. Mae perfformiad disgyblion PYD -0.22pt yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol [29.4pt], ac mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol [-9.15pt o gymharu â -10.3pt yn genedlaethol].

O'r 5 ysgol uwchradd roedd 2 (Ysgol C a D) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd perfformiad 1 (Ysgol C) yn well na'r perfformiad disgwyliedig a pherfformiad 1 (Ysgol A) yn sylweddol is na'r perfformiad disgwyliedig. Roedd perfformiad bechgyn a merched yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 36.4pt mewn 2 ysgol (Ysgol C a D). Mae'r bwlch rhwng y rhywiau wedi lleihau ym mhob ysgol eleni o gymharu gyda 2018. Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o -10.3pt mewn 4 ysgol (Ysgolion A,B,C,D).

Yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer mathemateg, roedd perfformiad -0.5pt yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol gyda -0.6pt o fwlch rhwng y rhywiau o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o -2.1pt. Roedd perfformiad disgyblion PYD yn uwch na chyfartaledd Cymru o 27.3pt ac roedd y bwlch rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD yn llai ym Môn nag yng Nghymru. Mewn mathemateg-rhifedd, roedd perfformiad yr awdurdod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 34.2pt, gyda pherfformiad bechgyn yn well na'u cyfoedion cenedlaethol, a pherfformiad y merched ychydig yn is (-0.4pt). Roedd perfformiad disgyblion PYD hefyd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 26.1pt [+0.2pt].

**Y Dangosydd Gwyddoniaeth**

Mae perfformiad yr ALI yn y dangosydd fymryn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 36.8pt, gyda pherfformiad y bechgyn yn uwch na'u cyfoedion cenedlaethol o +1.64pt, a pherfformiad y merched -0.29pt yn is. Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol o –1.94pt. Mae perfformiad disgyblion PYD yn uwch na'r perfformiad cenedlaethol o 28.2pt ac mae'r bwlch yn llai rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD ym Môn nag yn genedlaethol (-10.2 o gymharu â -11.6pt yn genedlaethol).

O'r 5 ysgol uwchradd, mae 2 (Ysgol C a D) wedi perfformio yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd perfformiad bechgyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 35.5pt mewn 4 ysgol (Ysgolion A, C, D, E). Roedd perfformiad merched ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 38.2pt mewn 2 ysgol (Ysgol C a D). Roedd perfformiad y disgyblion PYD yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 28.2pt mewn 3 ysgol (Ysgolion B,C,D). Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD hefyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn 4 ysgol (Ysgolion A,B,C,D).

**Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru**

Mae perfformiad yr ALI yn y dangosydd +1.83pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac yn cyd-fynd gyda'r perfformiad disgwyliedig. Mae perfformiad y bechgyn a'r merched yn uwch na'u cyfoedion cenedlaethol. Mae'r bwlch rhwng y rhywiau wedi lleihau i -6.30 ac mae ychydig bach yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae perfformiad disgyblion PYD +1.87pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol [29.5pt], ac mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD hefyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol [-7.51pt o gymharu â -9.6pt yn genedlaethol].
O'r 5 ysgol uwchradd, roedd 4 (Ysgolion A,B,C,D) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn uwch na'r perfformiad disgwyliedig. Roedd perfformiad bechgyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol 33.5pt mewn 4 ysgol (Ysgolion A,B,C,D), a pherfformiad merched yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol 39.5pt mewn 4 ysgol (Ysgolion A,B,C,D). Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn 3 ysgol (Ysgolion A,B,D). Mae'r bwlch wedi lleihau ym mhob ysgol eleni. Roedd perfformiad disgyblion PYD yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 29.5pt mewn 4 ysgol (Ysgolion A,B,C,D). Roedd y bwlch rhwng perfformiad

disgyblion PYD a dim PYD yn well na’r cyfartaledd cenedlaethol mewn 4 ysgol ac yn gyfartal â chyfartaledd cenedlaethol mewn 1 ysgol.

**Cwestiynau sy'n dod i'r amlwg:**
**Ysgolion cyfan:**

- Pam y mae cymaint o amrywiad mewn perfformiad rhwng ysgolion unigol ym Môn?
- Pa mor hyderus ydym ni bod holl ysgolion Môn yn arfarnu'n effeithiol effaith a chyfraniad pynciau di-graidd unigol yn y mesur C9 diwygiedig, ac i ba raddau y mae eu prosesau atebolrwydd yn herio'n rymus Amrywiad mewn Ysgol?
- Pa gamau gweithredu effeithiol y mae arweinwyr yn rhoi sylw iddynt ar hyn o bryd gydag adrannau sy'n perfformio'n well na chyfartaledd yr ysgol a gyda'r rhai hynny sy'n tanberfformio? Sut gellir sicrhau bod ysgolion yn dysgu gan ei gilydd?
- I ba raddau y mae adrannau unigol mewn ysgolion yn mynd ati i ddadansoddi'n fforensig y data a rennir gan CBAC ar berfformiad pynciau, ac i ba raddau y mae staff adrannau, ar draws yr holl bynciau, yn deall y pwysoliad asesu ar gyfer pob manyleb? Sut y mae hyn yn cael effaith effeithiol ar eu cynllunio a'u darpariaeth ac ar y ddealltwriaeth o raddio, dyfarnu ac adrodd ble bo'n berthnasol?
- Pa mor addas yw'r ddarpariaeth mewn ysgolion ar gyfer bechgyn, yn enwedig y rhai hynny sydd mewn perygl o golli diddordeb?
- Pa mor dda y mae'r strategaethau 14-19 lleol presennol yn sicrhau y defnyddir cyllid yn effeithiol i gyflwyno profiadau a chymwysterau priodol i grwpiau o ddisgyblion sydd wedi'u targedu, ac i ba raddau maen nhw'n cyfrannu at y mesurau interim diwygiedig ym mhob awdurdod lleol?
- Sut y gallwn sicrhau'n effeithiol bod arweinwyr a staff UauCD yn cael eu cefnogi a bod ganddynt y sgiliau i nodi'n glir sut i ddatblygu i'r eithaf berfformiad disgyblion unigol ar draws y mesurau perfformiad diwygiedig?

**Llythrennedd:**

- Pa mor effeithiol y mae ysgolion yn datblygu 'uwch sgiliau ysgrifennu' i wella perfformiad?
- Beth yw'r ffordd orau o gefnogi athrawon dosbarth ac adrannau i wella addysgu sgiliau arholiad?
- Beth yw’r strategaethau mwyaf effeithiol i leihau ymhellach y bwlch rhwng y rhywiau?
- A oes gan bob adran ddull cyffredin ac effeithiol o addysgu ysgrifennu?
- Sut y gallwn ni rymuso Penaethiaid Adran ymhellach i arwain y dysgu a'r addysgu?
- Sut y gallwn ni wella ansawdd Ymyrraeth Lythrennedd yng nghyfnod allweddol 3?
- Sut y gallwn ni gefnogi adrannau i gynyddu lefel yr her yng nghyfnod allweddol 3?

**Rhifedd:**

- Beth yw'r ffordd orau o gefnogi athrawon dosbarth ac adrannau i wella addysgu sgiliau arholiad?
- Beth yw’r strategaethau mwyaf effeithiol i wella perfformiad y merched?
- Sut y gallwn ni gefnogi adrannau i gynyddu lefel yr her yng nghyfnod allweddol 3?
- Sut y gallwn ni wella ymhellach addysgu rhifedd a mathemateg yng nghyfnod allweddol 3?
- Beth yw'r ffordd orau o gefnogi gweithio ar y cyd yng nghyfnod allweddol 4?

**Gwyddoniaeth:**

- Sut y gallwn ni gefnogi datblygiad sgiliau rhifedd yn fwy effeithiol (sgiliau rhifedd yn asesiad 30% mewn gwyddoniaeth ar draws y TGAU)?
- Sut y gallwn ni gefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd yn fwy effeithiol er mwyn cefnogi dysgwyr gallu is i ymdopi â'r swmp mawr o destun mewn papurau arholiad?
- Beth yw’r strategaethau mwyaf effeithiol i leihau ymhellach y bwlch rhwng y rhywiau?

- Sut y gallwn ni weithredu ymchwil weithredol fwy effeithiol mewn dosbarthiadau er mwyn gwella'r dysgu a'r addysgu?
- Beth yw'r strategaethau gorau i ennyn diddordeb bechgyn mewn gwyddoniaeth?
- Beth yw'r strategaethau gorau i ennyn diddordeb merched mewn gwyddoniaeth?
- Beth yw'r dull mwyaf effeithiol o gychwyn gwers wyddoniaeth? (cysylltiedig â phrosiect ymchwil EEF)
- Sut y gallwn ni ddefnyddio modelu i godi cyrhaeddiad mewn gwyddoniaeth?

**Cyfnod Allweddol 5**
Roedd 519 o ddisgyblion yn sefyll Safon Uwch ym Môn yn 2019, nifer ychydig yn is na 2018 (532). Gwelwyd gwelliant dros dreigl tair blynedd mewn deilliannau ar raddau A*/A ac A*-C. Ar raddau A*/A gwelwyd cynnydd o 0.8% o 2018 i 18.5% , a chynnydd o 2.3% i 72.4% ar raddau A*-C. Mae perfformiad yr Awdurdod yn 2019 yn is na'r perfformiad cenedlaethol ond mae'r bwlch wedi cau yn y ddau achos (o 0.1% a 2.3% yn y drefn honno). Mae'r ddau ffigwr yn uwch na'r ffigyrau ar gyfer yr ALI yn 2017 a 2018. Ar radd A*-B gwelwyd gostyngiad bychan ar berfformiad 2018 o 0.3% a gostyngiad o 1.4% ar raddau A*-E.

Mae data gwerth ychwanegol ALPS ar sail gwybodaeth a gyflwynir gan ysgolion yn awgrymu bod cynnydd disgyblion ôl-16 yn gryf ym Môn. Awgryma'r data hwn bod perfformiad ysgolion Môn ar y sgôr 'T' yn y 40% uchaf o gronfa ddata o ysgolion ar draws Cymru a Lloegr, sydd yn welliant ar berfformiad blynyddoedd blaenorol. Mae pedair allan o'r 5 ysgol uwchradd ym Môn wedi gwella ar eu perfformiad yn y Dangosydd Ansawdd gydag un ysgol wedi gwneud cynnydd ardderchog eleni (Ysgol B) ac ymhlith y 25% uchaf o gronfa ddata o ysgolion ar draws Cymru a Lloegr. Ar sail y nifer sydd yn sefyll yr UG, mae'r sgôr 'T' yn 6 sydd yn awgrymu bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn.

**Proffil Estyn yr ALI**

Mae proffil arolygiadau'r ALI yn gyffredinol debyg i 2017/18, ac yn gryfach na'r proffil cenedlaethol.

Cyfuno arolygiadau ysgolion Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | ALL Cymru | Nifer Arolygwyd | Dim mewn Dilyniant | | Adolygiad Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 2017-2018 | Ynys Mon | 8 | 75.0 | 6 | 12.5 | 1 | 12.5 | 1 | 0.0 | 0 |
| 2017-2018 | Cymru | 237 | 75.1 | 178 | 17.3 | 41 | 4.6 | 11 | 3.0 | 7 |
| 2018-2019 | Ynys Mon | 7 | 85.7 | 6 | 14.3 | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 2018-2019 | Cymru | 227 | 75.8 | 172 | 19.8 | 45 | 1.8 | 4 | 2.6 | 6 |

Y farn - pob ysgol 2018-19

| | Safonau | Lles | Addysgu | Cefnogaeth | Arweinyddiaeth |
|---|---|---|---|---|---|

| | Ynys Mon | Cymru | Ynys Mon | Cymru | Ynys Mon | Cymru | Ynys Mon | Cymru | Ynys Mon | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhagorol | 0.00 | 11.45 | 0.00 | 19.82 | 0.00 | 11.89 | 0.00 | 18.94 | 0.00 | 17.18 |
| Da | 85.71 | 65.20 | 100.00 | 67.40 | 71.43 | 62.11 | 100.00 | 70.93 | 85.71 | 58.59 |
| Digonol | 14.29 | 21.15 | 0.00 | 12.33 | 28.57 | 24.23 | 0.00 | 8.37 | 14.29 | 20.70 |
| Anfoddhaol | 0.00 | 2.20 | 0.00 | 0.44 | 0.00 | 1.76 | 0.00 | 1.76 | 0.00 | 3.52 |

Arolygiadau Ysgolion Cynradd   Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | ALL Cymru | Nifer Arolygwyd | Dim mewn Dilyniant | | Adolygiad Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 2017-2018 | Ynys Mon | 8 | 75.0 | 6 | 12.5 | 1 | 12.5 | 1 | 0.0 | 0 |
| 2017-2018 | Cymru | 200 | 80.5 | 161 | 14.5 | 29 | 3.5 | 7 | 1.5 | 3 |
| 2018-2019 | Ynys Mon | 6 | 83.3 | 5 | 16.7 | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 2018-2019 | Cymru | 188 | 80.9 | 152 | 16.5 | 31 | 0.5 | 1 | 2.1 | 4 |

Arolygiadau Ysgolion Uwchradd/Pob Oedran  Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | ALL Cymru | Nifer Arolygwyd | Dim mewn Dilyniant | | Adolygiad Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 2017-2018 | Ynys Mon | 0 | - | 0 | - | 0 | - | 0 | - | 0 |
| 2017-2018 | Cymru | 30 | 50.0 | 15 | 33.3 | 10 | 10.0 | 3 | 6.7 | 2 |
| 2018-2019 | Ynys Mon | 1 | 100.0 | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 2018-2019 | Cymru | 32 | 43.8 | 14 | 40.6 | 13 | 9.4 | 3 | 6.3 | 2 |

Arolygiadau Ysgolion Arbennig / Unedau Cefnogi Dysgu

| Blwyddyn | ALL Cymru | Nifer Arolygwyd | Dim mewn Dilyniant | | Adolygiad Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 2017-2018 | Ynys Mon | 0 | - | 0 | - | 0 | - | 0 | - | 0 |
| 2017-2018 | Cymru | 7 | 28.6 | 2 | 28.6 | 2 | 14.3 | 1 | 28.6 | 2 |
| 2018-2019 | Ynys Mon | 0 | - | 0 | - | 0 | - | 0 | - | 0 |
| 2018-2019 | Cymru | 7 | 85.7 | 6 | 14.3 | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |

Y farn mewn ysgolion Cynradd

| | Safonau | | Lles | | Addysgu | | Cefnogaeth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ynys Mon | Cymru | Ynys Mon | Cymru | Ynys Mon | Cymru | Ynys Mon | Cymru | Ynys Mon | Cymru |
| Rhagorol | 0.00 | 10.11 | 0.00 | 19.15 | 0.00 | 11.17 | 0.00 | 17.55 | 0.00 | 17.55 |
| Da | 83.33 | 71.28 | 100.00 | 72.34 | 83.33 | 66.49 | 100.00 | 76.06 | 83.33 | 63.30 |
| Digonol | 16.67 | 18.09 | 0.00 | 8.51 | 16.67 | 21.28 | 0.00 | 4.79 | 16.67 | 16.49 |
| Anfoddhaol | 0.00 | 0.53 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.06 | 0.00 | 1.60 | 0.00 | 2.66 |

Y farn mewn ysgolion Uwchradd/Gydol Oes

| | Safonau | | Lles | | Addysgu | | Cefnogaeth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ynys Mon | Cymru | Ynys Mon | Cymru | Ynys Mon | Cymru | Ynys Mon | Cymru | Ynys Mon | Cymru |
| Rhagorol | 0.00 | 12.50 | 0.00 | 18.75 | 0.00 | 9.38 | 0.00 | 21.88 | 0.00 | 9.38 |
| Da | 100.00 | 34.38 | 100.00 | 40.63 | 0.00 | 40.63 | 100.00 | 43.75 | 100.00 | 34.38 |
| Digonol | 0.00 | 40.63 | 0.00 | 37.50 | 100.00 | 43.75 | 0.00 | 31.25 | 0.00 | 46.88 |
| Anfoddhaol | 0.00 | 12.50 | 0.00 | 3.13 | 0.00 | 6.25 | 0.00 | 3.13 | 0.00 | 9.38 |

**Cynradd –** Arolygwyd 6 ysgol yn 2018-19. Barnwyd nad oedd angen gweithgarwch dilynol gan Estyn mewn 5 o'r 6.

Yn y proffil ar hyn o bryd mae 1 ysgol yn y categori dilyniant lleiaf dwys 'Adolygu gan Estyn' gydag 1 ysgol yn parhau mewn 'Gwelliant Sylweddol' (barnwyd yn yr ail ymweliad yn 2018-19 bod lefel y gweithgarwch dilynol yn yr ysgol yma yn parhau o'r arolygiad gwreiddiol yn 2017-18) .

**Uwchradd** - Arolygwyd 1 ysgol yn 2018-19. Barnwyd nad oedd angen gweithgarwch dilynol gan Estyn.

Yn y proffil ar hyn o bryd mae 1 ysgol o'r 5 ysgol uwchradd yn y categori dilyniant lleiaf dwys, Adolygu gan Estyn.

**Ysgolion Arbennig / UCD** – Ni arolygwyd ysgol Arbennig yn ystod 2018-19.

**Proffil Categoreiddio yr ALl –** gwybodaeth i ddilyn.

**Trefniadau monitro yr ALl ar gyfer craffu ar berfformiad ysgolion unigol**

Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Ansawdd Lleol pob pythefnos rhwng Arweinyddion Craidd Cynradd ac Uwchradd GwE a swyddogion ALl Môn. Trafodir unrhyw ysgolion sy'n achosi pryder, a nodir unrhyw gryfderau a meysydd i'w gwella. Trafodir hefyd canfod pryderon yn gynnar mewn ysgolion, ac fe'u nodir fel y gellir darparu ymyrraeth a chymorth yn gynnar. Mae hyn yn cysylltu â'r cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir rhwng Arweinydd Craidd Môn a'r

Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant er mwyn trafod cynnydd holl ysgolion Môn. Mae'r gohebu rheolaidd rhwng yr ALl a swyddogion GwE yn sicrhau y rhennir gwybodaeth am allu ysgolion i wella, a ble gwelir bod pryderon mae pawb yn gweithio mewn partneriaeth i adolygu'r safonau a'r ddarpariaeth yn yr ysgol a gosod a monitro targedau pendant ar gyfer gwella.

Mae gan ALl Môn Banel Craffu Ysgolion sydd yn cynnwys Swyddogion Addysg, Arweinwyr Craidd Môn ac Aelodau Etholedig. Mae'r Panel yn cyfarfod yn rheolaidd i graffu ar berfformiad ysgolion unigol, a gwahoddir Penaethiaid a Chadeiryddion yr ysgolion gerbron y Panel i adrodd ar safonau. Mae'r Panel hefyd yn craffu ar gefnogaeth GwE i'r ysgolion ynghyd â chysgodi gweithgareddau GwE er mwyn sicrhau ansawdd a gwerth am arian.

**Prif feysydd ar gyfer gwelliant i'r ALl i'w cynnwys mewn Cynlluniau Busnes Lefel 2**

- Gwella perfformiad ar y lefelau disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen ar draws pob maes dysgu.
- Gwella perfformiad ar yr uwch lefelau yn y Cyfnod Sylfaen ar draws pob maes dysgu.
- Gwella perfformiad disgyblion hPYD ar yr uwch lefelau yn y Cyfnod Sylfaen
- Gwella perfformiad mewn Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2.
- Gwella perfformiad disgyblion hPYD ar y lefelau disgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2.
- Gwella perfformiad bechgyn ar y lefelau disgwyliedig a'r uwch lefelau yng nghyfnod allweddol 2.
- Gwella perfformiad ar y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 3.
- Gwella perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4.
- Gwella perfformiad bechgyn mewn llythrennedd, a gwella perfformiad y merched mewn rhifedd a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4.
- Gwella perfformiad ar y graddau uwch yng nghyfnod allweddol 4.
- Gwella perfformiad ar raddau A*-A yng nghyfnod allweddol 5.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **21 Ionawr, 2020** |
| **Pwnc:** | **Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Diweddariad ar gynnydd gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng R Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Rhys H Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:

**A1** Nodi:

- Y cynnydd hyd yma gyda gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion o safbwynt cyflawni ei raglen waith sy'n cynnwys herio cadarn o berfformiad ysgolion unigol
- Y meysydd gwaith y rhoddwyd sylw iddynt drwy'r trefniadau newydd a gyflwynwyd wrth gysgodi GwE
- Deilliannau'r ymarferiad cymryd stoc a chynllunio ymlaen diweddar gan y Panel
- Yr angen i ddiwygio cylch gwaith y Panel er mwyn sicrhau aliniad parhaus efo blaenoriaethau corfforaethol ac allbynnau'r ymarferiad cymryd stoc.

**A2** Argymell bod y Pwyllgor yn dod i gasgliad am gadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid. Mae Cynllun y Cyngor yn cynnwys uchelgais i weithio gyda phobl Ynys Môn, eu cymunedau a chyda phartneriaid er mwyn sicrhau bydd y gwasanaethau gorau posibl yn cael eu darparu a fydd yn gwella ansawdd bywyd pawb ar hyd a lled yr Ynys. Un o 3 nod y Cynllun ydy "creu amodau a fydd yn galluogi pawb i gyrraedd eu potensial llawn." Mae gwaith y Panel yn allweddol i gefnogi ysgolion a'r Cyngor i wireddu'r nod hwnnw.

**3 – Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a **chymunedau [ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

| | |
|---|---|
| **3.3** | Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]** |
| **3.4** | Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]** |
| **3.5** | Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• hirdymor<br>• atal<br>• integreiddio<br>• cydweithio<br>• cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

**4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Ar gais y Panel:

1. A yw'r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon â'r gwaith o wnaed gan y Panel hyd yma?
2. A yw'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Panel hyd yma yn ddigon cadarn ac a yw cyflymder y gwaith yn briodol?
3. Oes unrhyw awgrymiadau i gryfhau ymhellach ar waith y Panel?
4. A oes unrhyw feysydd eraill y mae angen i'r Panel eu craffu?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

## 1. CYD-DESTUN

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, bydd Aelodau'n ymwybodol bod craffu wedi datblygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf drwy waith y 3 phanel sgriwtini. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas â'r **Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion.**

**Trefniadau Llywodraethu'r Panel**

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r trefniadau llywodraethu cadarn sydd mewn lle fel sylfaen i waith y Panel[1] a bwriedir parhau i gynnal cyfarfodydd misol o'r Panel i'r dyfodol. Sefydlwyd proses o adrodd ar gynnydd yn chwarterol gan y Cyng. Gwilym Owen Jones, cadeirydd y Panel.

Erys i aelodaeth y Panel fod fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor yn ystod y chwarter diwethaf[2]:

**Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: Aelodaeth**

| Cynghorydd | Pwyllgor Sgriwtini |
|---|---|
| Gwilym Owen Jones (cadeirydd) | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| Margaret M Roberts | |
| Kenneth P Hughes | |
| Vaughan Hughes | |
| | |
| Alun Roberts (Is-gadeirydd) | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| John Arwel Roberts | |
| Richard Griffiths | |

[1] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 20 Ebrill a 27 Mehefin 2017
[2] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2019

| Aelod Cyfetholedig o'r Pwyllgorau Sgriwtini | |
|---|---|
| Mr Keith Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |

## 2. FFOCWS GWAITH Y PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn cynnwys cyfeiriad at 3 cyfarfod olaf y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion – ac o ganlyniad mae'n cwmpasu'r cyfnod **Medi → Rhagfyr, 2019**:

- **Cymryd stoc a chynllunio ymlaen –** cyfeiriodd yr adroddiad cynnydd diwethaf i'r Pwyllgor hwn[3] at yr angen i adolygu cylch gwaith y Panel er mwyn sicrhau aliniad parhaus efo'n blaenoriaethau corfforaethol. Gyda'r dasg honno mewn golwg, cynhaliwyd gweithdy datblygu ar gyfer aelodau'r Panel ym mis Medi[4]. Prif amcan y gweithdy oedd cytuno ar yr elfennau canlynol a hynny fel sail i ddatblygu cylch gwaith diwygiedig ar gyfer y Panel:
    i. Cadarnhau'r ffiniau i rôl a phwrpas y Panel
    ii. Prif feysydd y dylid eu cynnwys yn y cylch gwaith
    iii. Blaenoriaethau blaen raglen waith y Panel – tymor byr, tymor canol

    Bu i'r gweithdy datblygu edrych ar siwrnai ddatblygu'r Panel hyd yma (cryfderau a meysydd datblygu), disgwyliadau Rheoleiddwyr a blaenoriaethau'r cyfnod nesaf. Daethpwyd i'r casgliad bod sgôp sylweddol i'r Panel ddatblygu ymhellach gan flaenoriaethu'r meysydd datblygu canlynol ar gyfer y cyfnod nesaf:

| Pennawd | Maes Datblygu |
|---|---|
| **Safonau Ysgolion** | • Parhau i ddatblygu amodau cefnogol ac ymdeimlad o bartneriaeth / gweithio mewn tîm pan yn craffu ar safonau mewn ysgolion unigol<br>• **Monitro safonau ysgolion unigol**: Aelodau Etholedig i ymweld ag ysgolion unigol cyn gwahodd yr ysgolion rheiny i ddod gerbron y Panel |
| **Cysgodi GwE** | Datblygu'r trefniadau i gynnwys gwaith mewn ysgolion unigol (yn ogystal â'r gweithgareddau clwstwr / dalgylch) |
| **Rhaglen waith y Panel** | Ychwanegu'r meysydd canlynol at raglen waith y Panel:<br>• Llais y plentyn |

[3] Adroddiad cynnydd am y cyfnod Mai → Gorffennaf, 2019 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 11 Medi, 2019
[4] Gweithdy Datblygu'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion, 27/09/19

| | | |
|---|---|---|
| | | • Anghenion dysgu ychwanegol<br>• Darpariaeth nas gynhelir (blynyddoedd cynnar)<br>• Cwricwlwm newydd<br>• Hunan-werthusiad y Gwasanaeth Dysgu – monitro cynnydd<br>• Crynodeb o adroddiadau arolygu Estyn a gyhoeddwyd ar gyfer ysgolion ar yr Ynys<br>• Proffil o'r Awdurdod Addysg Lleol yn erbyn safonau Estyn<br>• Crynodeb o adroddiadau arolygu Estyn a gyhoeddwyd ar gyfer y ddarpariaeth Blynyddoedd nas Gynhelir (blynyddoedd cynnar) ar Ynys Môn |
| | **Cyfathrebu** | Rhaeadru gwybodaeth am rôl, cyfraniad a deilliannau gwaith y Panel ymhlith holl Aelodau'r Cyngor |
| | **Cau'r cylch** | Parhau i gynnal trefniadau i lais / gyfraniad y Panel gyrraedd y rhiant bwyllgor a'r Pwyllgor Gwaith (ychwanegu gwerthu a mesur effaith Craffu) |
| | **Llywodraethwyr ysgolion** | Cryfhau ymhellach ar rôl Aelodau Etholedig fel llywodraethwyr ysgol (cyfaill beirniadol / taith ddysgu) |

Derbyniwyd adroddiad cynnydd ar ddeilliannau'r gweithdy yng nghyfarfod mis Hydref[5] y Panel. Fe benderfynwyd ar y meysydd canlynol hefyd:

- Creu model o weithio gwahanol i'r Panel sy'n rhoi ffocws ar grwpiau llai o Aelodau Etholedig yn canolbwyntio ar agweddau penodol a threfniadau i gylchdroi'r Aelodau er mwyn rhoi'r cyfle i bawb gael profiad o weithio ar holl agweddau gwaith y Panel
- Paratoi cylch gwaith diwygiedig ar gyfer y Panel efo'r amcan o sicrhau aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

- **Monitro Safonau Ysgolion Unigol** – ym mis Hydref[6] cafwyd trafodaeth ynghylch y rhaglen ar gyfer monitro safonau mewn ysgolion unigol. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn arbennig:

[5] Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion, 17/10/19
[6] Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion, 17/10/19

i. Allweddol bwysig parhau i flaenoriaethu gwaith monitro safonau mewn ysgolion unigol ar flaen raglen waith y Panel
ii. Wrth symud ymlaen, amrywio trefniadau monitro'r Panel i gynnwys ymweliad gan gynrychiolaeth o Aelodau Etholedig y Panel i'r ysgol dan sylw (cyn cyfarfod y Panel)
iii. Ffynonellau gwybodaeth: dylai'r wybodaeth ganlynol fod ar gael i'r Panel pan yn craffu ar safonau mewn ysgolion unigol –
   - Gwybodaeth am yr ysgol gan yr Awdurdod a GwE
   - Cyflwyniad gan y Pennaeth a chadeirydd y Llywodraethwyr
iv. Cau'r cylch ar ôl monitro safonau mewn ysgolion unigol – drwy gymryd camau i gadarnhau unrhyw sylwadau gan y Panel a hynny ar ffurf llythyr yn enw'r cadeirydd
v. Pwysig sicrhau bod trefniadau cyfathrebu effeithiol mewn lle gyda'r Aelodau Etholedig sy'n lywodraethwyr ysgol. Hefyd, anelu at gynnig arlwy o hyfforddiant a chyfleoedd datblygu ar gyfer aelodau'r Panel.

Bu i'r Panel roi raglen newydd mewn lle i herio perfformiad ysgolion unigol gan adeiladu ar ei waith dros y blynyddoedd diwethaf. Yng nghyfarfod mis Tachwedd[7] gwelwyd y Panel yn adolygu safonau a pherfformiad mewn un ysgol gynradd (categori: gwyrdd). Rhaglenwyd y canlynol ar y rhaglen waith dros y misoedd nesaf:

- Mis Ionawr, 2020 – ysgol gynradd (categori: melyngoch)
- Mis Mawrth, 2020 – ysgol uwchradd (categori: melyn)
- Mis Ebrill, 2020 – anghenion dysgu ychwanegol (categori: melyn)

- **Trefniadau Llywodraethu** – bu i'r Panel drafod yr agweddau canlynol o'r trefniadau llywodraethu yng nghyfarfod mis Hydref:
  i. Amlder adrodd yn ôl i'r rhiant bwyllgor gan y Panel – cadarnhawyd yr angen i roi trefniadau mewn lle i'r Panel adrodd bob 3 mis i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd rhaglenni gwaith a gwerth ychwanegol y Panel. Cyflwyno trefniadau adrodd yn amlach pe bae risg penodol i'w gyfarch
  ii. Rhaeadru gwybodaeth am rôl, cyfraniad a deilliannau'r Panel – drwy eitem gynhwysfawr ar raglen mis Rhagfyr y Sesiwn Briffio Misol Aelodau[8]

- **Rôl Aelodau Etholedig fel Llywdraethwyr Ysgol** – cafwyd trafodaeth gan y Panel ynghylch rôl cynghorwyr fel llywodraethwyr a nodwyd y pwyntiau canlynol:
  i. Pwysig creu'r amodau i Aelodau Etholedig ddatblygu rôl cyfaill beirniadol
  ii. Adnabod rhinweddau taith ddysgu effeithiol yn rhan bwysig o rôl llywodraethwr
  iii. Byddai'n fuddiol datblygu cyfres o gwestiynau safonol er defnydd yr Aelodau pan maent yn mynychu cyfarfodydd llywodraethwyr - ar y Cwricwlwm Newydd, y daith ddysgu, cyfraniad y Cyngor Ysgol, llais plant a phobl ifanc

  - **Cysgodi GwE** - bydd aelodau'n ymwybodol o'r trefniadau sydd mewn lle i aelodau'r Panel gysgodi gweithgareddau GwE.

    Mae'r fframwaith llywodraethu ar gyfer y trefniadau cysgodi hyn yn gynnwys trefniadau adrodd yn ôl gan Aelodau yn sgil gweithgareddau cysgodi unigol, gyda'r amcanion canlynol:
    i. Dod â'r Panel yn nes at waith disgyblion a hefyd safonau mewn ysgolion

[7] Cyfarfod o'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion a gynhaliwyd ar ?? Tachwedd, 2019
[8] Sesiwn Briffio Misol Aelodau, 05/12/19

ii. Creu'r amodau i Aelodau werthfawrogi'n llawn gymhlethdodau a heriau dysgu ee trwy gyfarfod â staff dysgu rheng flaen i drafod materion yn gyffredinol
iii. Cefnogi'r Panel i ddatblygu ei raglen waith ymhellach

Ym mis Hydref, gwelwyd y Panel[9] yn cadarnhau fersiwn ddiwygiedig y ffurflen adborth i'w defnyddio gan Aelodau Etholedig wrth adrodd yn ôl yn sgil y gweithgareddau canlynol:

- Cysgodi GwE – gwaith clwstwr
- Cysgodi GwE – ysgol unigol
- Cysgodi GwE – hyfforddiant wedi'i ddarparu gan GwE
- Monitro safonau – ymweliad ag ysgol unigol
- Monitro safonau – cyfarfod y Panel

**4. MATER I'W UWCHGYFEIRIO I'R RHIANT BWYLLGOR EI YSTYRIED**

Cyfeirir y mater a ganlyn er ystyriaeth gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ddod i gasgliad am gadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| D/B |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| D/B |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 – Papurau Cefndir (cysylltwch ag Awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Cyng. Gwilym Owen Jones**
**Cadeirydd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion**
**Dyddiad: 23/12/19**

[9] Cyfarfod o'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2019

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | Ionawr 20, 2020 |
| **Pwnc:** | Papur Cynnig – Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Gofyn am sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini ar y cynnig fel y gall y Pwyllgor Gwaith eu ystyried cyn gwneud penderfyniad i dderbyn y papur cynnig neu beidio ac i awdurdodi swyddogion i ymgymryd â'r ymgynghoriad ffurfiol.<br><br>Y cynnig: "Datblygu mwy o gyfleon yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre" |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Alwyn R Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Sandra Thomas, Rheolwr Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol, 01248 752024<br>sltss@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Mae'r cynnig yn effeithio ar wasanaethau sy'n benodol i wardiau'r Aelodau canlynol:<br>Y Cynghorydd Bob Parry<br>Y Cynghorydd Dylan Rees<br>Y Cynghorydd Nicola Roberts<br>Y Cynghorydd Lewis Davies<br>Y Cynghorydd Carwyn Jones<br>Y Cynghorydd Alun Roberts<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes<br>Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones<br>Y Cynghorydd Shaun Redmond<br>Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes<br>Y Cynghorydd John Arwel Roberts<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas<br><br>Mae'r cynnig hefyd yn effeithio ar drigolion ym mhob ward |

Drafft

| **1 – Argymhelliad/ion** |
| --- |
| Bod y Pwyllgor Sgrwtini yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith i:<br>1. Gefnogi mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghoriad, y cynnig i "Ddatblygu mwy o gyfleoedd yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre."<br><br>2. Awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
| --- |
| Mae Cynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-22 yn cynnwys yr amcanion canlynol sy'n uniongyrchol berthnasol i'r gwasanaethau hyn:<br>Amcan 1: Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir.<br>Amcan 2: Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib. |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
| --- |
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• hirdymor<br>• atal<br>• integreiddio<br>• cydweithio<br>• cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
| --- |
| 1. Mae amrediad ac ansawdd y cyfleon dydd sydd ar gael ar yr ynys yn cael effaith uniongyrchol ar ddefnyddwyr a'u teuluoedd. Pa drefniadau fydd mewn lle i ymgynghori ag ymgysylltu gyda defnyddwyr a rhanddeiliaid allweddol ar y cynnig.<br><br>2. Sut mae modd sicrhau'r Pwyllgor fod yr holl unigolion yr effeithir arnynt yn gallu cymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn llawn ac yn gallu dylanwadu ar y canlyniad terfynol? |

3. Pa drefniadau fyddai yn eu lle yn y dyfodol er mwyn sicrhau y gall pobl gael mynediad i wasanaethau yn eu dewis iaith?

4. Sut mae modd sicrhau'r Pwyllgor bod unrhyw wasanaethau cymunedol yn y dyfodol yn rhai o safon uchel yn gyson a'u bod yn diogelu'r unigolion sy'n eu defnyddio?

5. Sut mae modd sicrhau'r Pwyllgor, drwy ymgymryd â'r newid trawsnewidiol hwn bod yr adnoddau'n cael eu dyrannu'n deg yn y dyfodol ac nad yw gwasanaethau'n cael eu dyblygu?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Mae angen ail-lunio a moderneiddio'r gwasanaethau cyfleon dydd er mwyn:

- Datblygu cyfleon cynaliadwy i unigolion gyflawni eu potensial.
- Gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth ymhellach yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.
- Ymateb i adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd ynghylch sut fath o gyfleon dydd yr hoffent eu cael yn y dyfodol.
- Cwrdd ag anghenion y bobl rydym yn eu cefnogi ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.
- Cwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar yr amrywiol faterion mewn perthynas â chyfleoedd dydd ar yr ynys i bobl ag anabledd dysgu. Mae'n dilyn ymlaen o fabwysiadu'r Strategaeth Cyfleoedd Dydd ym mis Hydref 2019. Rhoddwyd cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gofalwyr gymryd rhan yn yr ymgysylltiad ar y Strategaeth ddrafft yn ystod Ebrill a Mai 2019. Mae llawer o'u sylwadau a'u safbwyntiau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Mae swyddogion wedi ystyried dewisiadau amgen rhesymol ar gyfer darparu cyfleoedd dydd ledled Ynys Môn i bobl ag anableddau dysgu. Daeth swyddogion i'r casgliad y dylid canolbwyntio ar wella gwasanaethau yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu a sicrhau bod adnoddau pwrpasol ar gael i gynorthwyo'r unigolion hynny sydd ag anghenion corfforol ac ymddygiadol mwy cymhleth. Rydym yn gobeithio ysgogi creadigrwydd ac arloesedd a fydd yn golygu y bydd modd i ni drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ac ymateb i'r cynnydd a ragwelir yn y galw am wasanaethau o fewn cyfyngiadau ariannol heriol.

Bydd y gwasanaeth newydd yn darparu cyfleon hyblyg i bobl ag anabledd dysgu a bydd yn cwrdd â'r galw yn y dyfodol, gan gynnwys y galw gan y bobl hynny a chanddynt anghenion mwy cymhleth. Mae'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael â materion mewn perthynas â:

- Y gwahaniaeth yn y costau uned ar gyfer y gwasanaethau.
- Y pellteroedd y mae unigolion yn eu teithio i'r canolfannau dydd ar hyn o bryd.
- Addasrwydd a hygyrchedd y canolfannau cyfredol.
- Disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr i gael mwy o gyfleon sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac sy'n canolbwyntio ar gynnydd a chyflawniad unigolion.

Y cynnig yw:
**Datblygu mwy o gyfleon yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre**.

Gwneir hyn drwy:

1. Sefydlu fframwaith comisiynu cadarn i ddarparwyr allanol gynnig cyfleoedd dydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
2. Datblygu cyfleon pellach i bobl ag anabledd dysgu ddefnyddio'r adnoddau a'r gwasanaethau cyfredol o fewn y gymuned yn ystod y dydd e.e. mewn hybiau lleol.
3. Ymestyn adeilad Gors Felen, Llangefni i ddarparu cyfleuster pwrpasol a all fod yn ddigon hyblyg i ddarparu gweithgareddau amrywiol i unigolion â gwahanol anghenion, yn enwedig y rheini sydd angen diogelwch gwasanaeth a ddarperir o fewn adeilad. Bydd yn ganolfan ragoriaeth gyda staff wedi eu huwchsgilio yn defnyddio arferion gorau ac yn cydweithio â'r adran iechyd. Bydd y ganolfan hefyd yn ganolfan galw heibio ar gyfer pob unigolyn sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned.
4. Hefyd datblygu opsiynau amgen i bobl ag anghenion cymhleth sy'n ategu'r ddarpariaeth yn y ganolfan ragoriaeth / canolfan galw heibio yn Gors Felen. Bydd unigolion sydd â'u cludiant eu hunain yn gallu mynd a dod yn ystod y dydd a chyflawni gweithgareddau eraill.
5. Wrth i'r gwasanaethau uchod gael eu datblygu, cau'r gwasanaethau dydd yn raddol ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre, gan sicrhau bod darpariaeth amgen ar gyfer yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth yr effeithir arnynt cyn iddynt gau.
6. Annog unigolion i ddewis taliad uniongyrchol er mwyn gwneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer cyfleon dydd. Mae rhai atebion arloesol yn dechrau datblygu lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn cyfuno eu taliadau uniongyrchol i hwyluso gweithgareddau mwy creadigol gan ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau.
7. Cefnogi'r datblygiadau arloesol sydd wedi digwydd yn lleol dros y blynyddoedd diwethaf yn y trydydd sector. Mae sefydliadau trydydd sector eisoes yn cynnig datrysiadau creadigol gyda'r nod o sicrhau opsiynau cynaliadwy ac ymarferol i unigolion.
8. Sefydlu swyddi hwyluswyr cymunedol penodol ar gyfer anabledd dysgu - tebyg i Gydlynwyr Ardal Leol - a fydd yn ymgysylltu â phartneriaid cymunedol ac yn datblygu ystod o gyfleoedd cymunedol. Bydd y swyddi hyn hefyd yn ymgymryd â rôl broceriaeth i gydlynu'r lleoliadau fframwaith allanol.

**Ymgynghoriad Rhanddeiliaid:**

Os cytunir, byddai ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei ymgymryd ag ef gyda'r rhanddeiliaid a effeithir arnynt. Byddai'r ymgynghoriad hwn yn dilyn proses debyg i'r un a ymgymerwyd â hi yn ystod y gwaith ymgysylltu ar y Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu ym Mai a Mehefin 2019. Roedd yr ymateb i'r ymgysylltiad hwn yn uchel (>60%) ac yn adlewyrchu'r ffaith bod adnoddau'n cael eu targedu'n benodol tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd gyda'r mecanweithiau cefnogi priodol yn eu lle er mwyn galluogi cyfranogiad a dealltwriaeth.

Wrth gynllunio'r ymgynghoriad byddwn yn anelu i:

- Dawelu meddyliau rhanddeiliaid o'n bwriad i wella'r ddarpariaeth bresennol a chynyddu dewisiadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.
- Sicrhau bod cynigion amgen yn cael eu hegluro'n glir ac yn gyflym.
- Sicrhau graddfa ymateb uchel i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid a effeithir arnynt gan ganolbwyntio'n benodol ar y grwpiau canlynol o bobl:
  - Staff yn y canolfannau a effeithir arnynt
  - Defnyddwyr Gwasanaeth
  - Teuluoedd a gofalwyr
  - Darparwyr gwasanaethau dydd a phartneriaid trydydd sector
  - Gwasanaethau Eiriolaeth

**Gweithredu ar y cynnig:**
Os gaiff y cynnig terfynol ei gymeradwyo yn dilyn yr ymgynghoriad bydd y cynllun gweithredu yn cymryd hyd at dair i bedair blynedd i'w wireddu yn llawn. Yn y cyfnod yna bydd angen:

- Parhau i ddatblygu cyfleoedd cymunedol ac adolygu'r fframwaith cytundebol
- Dylunio ac adeiladu'r estyniad yn Gors Felen.
- Sicrhau bod dewisiadau digonol mewn lle cyn cau unrhyw wasanaeth
- Cefnogi defnyddwyr gwasanaeth i gysidro cyfleodd creadigol sy'n adeiladu ar eu cryfderau unigol ac yn cefnogi dilyniant.

Sylwer na fydd unigolion yn colli eu hawl i dderbyn gwasanaeth o ganlyniad i'r cynnig hwn. Be fasa'n newid ydi yn lle a sut y byddent yn derbyn y gwasanaeth.

## 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Mae AEC yn ynghlwm a'r adroddiad. Mae hon yn ddogfen weithredol a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i'r ymgynghoriad yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig a gyhoeddir fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori maes o law.

## 7 – Oblygiadau Ariannol

Os bydd y Cynnig yn cael ei gytuno, rhagwelir bydd costau'r estyniad yn cael ei ariannu drwy fid cyfalaf y Cyngor Sir.

## 8 – Atodiadau

Papur Cynnig Cyfleoedd Dydd - Anableddau Dysgu. Ionawr 2020
Atodiad A – Map o'r gwasanaethau cyfredol
Atodiad B - Asesiad o'r Effaith

Draft

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Strategaeth Cyfleoedd Dydd CSYM 2019-2022 |

Drafft

# ‘PAPUR CYNNIG’

## Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion

## Cyfleon Dydd - Anableddau Dysgu

## Ionawr 2020

**Cynnig ar gyfer:**

**Datblygu mwy o gyfleon yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre.**

CYNNWYS

CRYNODEB GWEITHREDOL ... 3
1. PWRPAS YR ADRODDIAD ... 3
2. CEFNDIR A GWYBODAETH ... 5
3. Y CYNNIG ... 8
4. GYRWYR ALLWEDDOL AR GYFER NEWID ... 8
5. GYRWYR ALLWEDDOL AR GYFER NEWID YN Y GWASANAETHAU DYDD AR GYFER ANABLEDDAU DYSGU ... 10
6. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL AR GYFER Y GWASANAETHAU DYDD MEWNOL ... 19
7. GWYBODAETH ARIANNOL ARALL ... 30
8. CASGLIAD ... 30

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

Mae angen ail-lunio a moderneiddio'r gwasanaethau cyfleon dydd er mwyn:

- Datblygu cyfleon cynaliadwy i unigolion.
- Gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth ymhellach yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.
- Ymateb i adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd ynghylch sut fath o gyfleon dydd yr hoffent eu cael yn y dyfodol.
- Cwrdd ag anghenion y bobl rydym yn eu cefnogi ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.
- Cwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ffocws y cynnig yw gwella gwasanaethau yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, gan sicrhau bod adnoddau pwrpasol i gefnogi'r unigolion hynny sydd ag anghenion corfforol ac ymddygiadol mwy cymhleth.

Rydym yn gobeithio ysgogi creadigrwydd ac arloesedd a fydd yn ein galluogi i drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ac i ymateb i'r cynnydd a ragwelir yn y galw am wasanaethau o fewn y cyfyngiadau ariannol heriol.

Y cynnig yw:
**Datblygu mwy o gyfleon yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre.**

Bydd y gwasanaeth newydd yn darparu cyfleon hyblyg i bobl ag anabledd dysgu a bydd yn cwrdd â'r galw yn y dyfodol, gan gynnwys y galw gan y bobl hynny a chanddynt anghenion mwy cymhleth. Mae'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael â materion mewn perthynas â:

- Y gwahaniaeth yn y costau uned ar gyfer y gwasanaethau.
- Y pellteroedd y mae unigolion yn eu teithio i'r canolfannau dydd ar hyn o bryd.
- Addasrwydd a hygyrchedd y canolfannau cyfredol
- Disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr i gael mwy o gyfleon sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac sy'n canolbwyntio ar gynnydd a chyflawniad unigolion.

Rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig hwn gyda'r defnyddwyr gwasanaeth yr effeithir arnynt, eu teuluoedd, eu gofalwyr a'r staff yn y canolfannau yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2020. Cyflwynir y cynnig terfynol i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2020.

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r cynnig ar gyfer dyfodol cyfleon dydd ar gyfer anabledd dysgu yn Ynys Môn. Bydd y papur hefyd yn cyflwyno'r dewisiadau amgen rhesymol a ystyriwyd ar gyfer y gwasanaeth, yn benodol mewn perthynas â'r gwasanaethau mewnol cyfredol, a bydd yn cymryd i ystyriaeth yr ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth ynghylch gwasanaethau dydd yn ystod haf 2019.

Defnyddir yr adroddiad hwn i ofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid mewn perthynas â'r cynnig.

Mae'r broses ar gyfer ysgrifennu'r adroddiad hwn wedi cynnwys:

- O dan gyfarwyddyd y Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion, trefnwyd cyfres o ymweliadau â gwahanol ganolfannau dydd ar yr ynys gyda chyfleon i'r holl Aelodau Etholedig fynychu (Gorffennaf 2019).

- Cynhaliwyd ymarfer casglu data er mwyn casglu ffeithiau a ffigyrau perthnasol i gynorthwyo i gymharu'r canolfannau (Gorffennaf 2019).

- Cynhaliwyd gweithdai i werthuso'r opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer dyfodol y canolfannau dydd. Roedd swyddogion o'r Gwasanaeth Oedolion, y Gwasanaeth Cyllid a'r Uned Drawsnewid yn bresennol. (Awst - Tachwedd 2019).

- Drafftio Strategaeth newydd ar gyfer Cyfleon Dydd i Bobl ag Anabledd Dysgu, a fabwysiadwyd ar ôl ymgysylltu'n helaeth â defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr, eu teuluoedd a darparwyr gwasanaeth (Ebrill - Mai 2019). Dyma rai enghreifftiau o'u sylwadau:

*"Dwi angen pethau i'w gwneud, mwy o wasanaeth dydd, mae angen i fwy o swyddi fod ar gael"*

*"Mae angen i mi ddysgu pethau newydd"*

*""Rwy'n hoffi bod allan ac o gwmpas, yn cwrdd â phobl newydd a gwneud gwahanol swyddi y tu allan"*

*"Rwy'n gweithio yn bell o fy nghartref - hoffwn fod yn agosach"*

*"Hoffwn gael cefnogaeth i wneud gwaith gwirfoddol"*

*"Rwy'n gwneud yr un pethau drosodd a throsodd ... hoffwn gael mwy o ddewis o weithgareddau"*

*"Byddwn yn hoffi cael mwy o opsiynau am weithgareddau yn y gymuned"*

*"Hoffwn wneud mwy o bethau gyda thechnoleg"*

*"Nid oes gan yr holl gyfleon dydd ddigon o staff i helpu a hoffwn gael mwy o weithgareddau coginio, jig-so newydd, a llyfrau lliwio a mwy o dripiau dydd"*

*"Rydw i eisiau bod yn fwy annibynnol ac rydw i eisiau helpu pobl eraill"*

*"Mae angen mwy o bethau i'w gwneud yn Llangefni yn ystod y dydd"*

(= dyfyniadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn Ebrill a Mai 2019)

## 2. CEFNDIR A GWYBODAETH

Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Anabledd Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi oedolion a chanddynt ystod o anableddau corfforol a dysgu. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn cefnogi oddeutu 330 o bobl yr asesir bod ganddynt anghenion gofal a chymorth. Darperir a chomisiynir cefnogaeth mewn sawl ffordd gan gynnwys cefnogaeth i fyw gartref gyda theulu, byw â chymorth arbenigol, gofal cartref, gofal preswyl, gofal seibiant, ymyrraeth gwaith cymdeithasol, ymyriadau iechyd arbenigol a chefnogaeth uniongyrchol 1:1.

**Beth ydym ni'n ei olygu wrth y term *anabledd dysgu?***

Defnyddir y term *anabledd dysgu* i ddisgrifio unigolyn sydd:

- â gallu sylweddol llai i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth, neu i ddysgu sgiliau newydd; a / neu
- llai o allu i ymdopi'n annibynnol (amhariad ar y gallu i addasu) a ddechreuodd cyn iddynt fod yn oedolyn ac sy'n cael effaith barhaol ar ddatblygiad (Adran Iechyd, 2001).

Noder os gwelwch yn dda bod gwahaniaeth rhwng *anabledd dysgu* ac *anhawster dysgu*, a ddefnyddir yn y maes addysg fel term ehangach sy'n cynnwys pobl ag anawsterau dysgu penodol fel dyslecsia (Emerson a Heslop, 2010). Mae'r papur hwn yn ymwneud â phobl ag anableddau dysgu.

**Beth ydym yn ei olygu wrth y term *anableddau dysgu dwys a lluosog* (ADDLl)?**

Defnyddir y term *anableddau dysgu dwys a lluosog* (ADDLl) i ddisgrifio pobl â mwy nag un amhariad, gan gynnwys amhariad deallusol dwys (Doukas et al., 2017). Yn hytrach na diagnosis clinigol, disgrifiad ydyw o unigolion sy'n cael anhawster mawr i gyfathrebu ac sydd yn aml angen y bobl sy'n eu hadnabod yn dda i ddehongli eu hymatebion a'u bwriadau. Mae'r term yn cyfeirio at grŵp amrywiol o bobl ac yn aml bydd ganddynt gyflyrau eraill, gan gynnwys amhariadau corfforol a synhwyraidd neu anghenion iechyd cymhleth.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion dan bwysau parhaus i leihau eu cyllideb gwariant o £25m tra hefyd yn cynnal darparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor nifer o gyfleon dydd gwahanol ar gael i bobl ag anableddau dysgu - mae rhai o'r rhain yn wasanaethau mewnol sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor ac mae rhai yn cael eu comisiynu'n allanol.

- Mae tua 190 o unigolion yn mynychu gwasanaeth dydd bob wythnos.
- Gallant fynychu naill ai ar sail amser llawn neu ran amser yn dibynnu ar anghenion unigol.
- Mae rhai unigolion yn mynychu mwy nag un gwasanaeth yn ystod yr wythnos.
- Ar hyn o bryd mae'r gwasanaethau hyn yn costio oddeutu £1.5m y flwyddyn i'r Cyngor.

**Darpariaeth fewnol:**

- Morswyn, Caergybi
- Blaen y Coed, Llangoed
- Gerddi Haulfre, Llangoed
- Gors Felen, Llangefni

**Gweithdy Canolfan Byron**

Mae Gweithdy Canolfan Byron wedi'i eithrio o'r cynnig hwn oherwydd:

- Sefydlwyd y gweithdy yn wreiddiol fel gwasanaeth cyflogaeth gyda chefnogaeth ar gyfer grwpiau anabledd eraill ond mae wedi cael ei gynnwys yn hanesyddol yn y gwasanaeth anabledd dysgu.
- Mae’n darparu cyfleoedd cyflogaeth gyda chefnogaeth i nifer o unigolion na fyddai eu hanghenion yn dod o dan feini prawf cymhwysedd y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer darparu gofal a chymorth a reolir, gan gynnwys gwasanaethau dydd a / neu gyfleoedd gwaith.

Felly bydd Gweithdy Canolfan Byron yn cael ei adolygu o dan ffrwd waith ar wahân gydag adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2020.

**Darpariaeth allanol:**
Ar hyn o bryd rydym hefyd yn contractio gyda chwe darparwr allanol sydd wedi'u lleoli yn Ynys Môn a Gwynedd. Mae defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd eisoes wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi dull arloesol y darparwyr hyn o ddarparu gwasanaethau. Mae'r trefniadau contractio ar gyfer y gwasanaethau allanol wrthi'n cael eu diweddaru trwy fframwaith newydd a fydd ar waith erbyn mis Rhagfyr 2020. Bydd y fframwaith hwn yn agor y farchnad i ddarparwyr newydd posib a bydd hefyd yn sicrhau bod y ddarpariaeth fewnol ac allanol yn asio'n dda ac yn lleihau dyblygu. Bydd y fframwaith newydd yn gwneud hyn trwy:

a) Canolbwyntio ar ddull sy'n seiliedig ar ganlyniadau - h.y. symud o dalu am weithgareddau o fewn amserlen benodol i dalu am ganlyniadau neu ddeilliannau sy'n cynyddu sgiliau, lles a hyder unigolyn.
b) Sicrhau'r un safonau darparu gwasanaeth ar draws yr holl wasanaethau gyda'r gwasanaethau mewnol ac allanol yn canolbwyntio ar sicrhau cynnydd a chyflawni canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth unigol.
c) Sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n deg gyda'r un meini prawf asesu a mynediad ar gyfer gwasanaethau mewnol ac allanol.
d) Sicrhau prisiau teg am wasanaethau sy'n adlewyrchu gwahanol anghenion yr unigolion sy'n mynychu. Er enghraifft, gallai fod yn briodol talu cyfradd premiwm i gefnogi unigolyn ag anableddau dysgu mwy dwys neu luosog neu anghenion cymorth cymhleth.
e) Bydd gan ddarparwyr fwy o ryddid a hyblygrwydd i weithio gyda'r bobl maent yn eu cefnogi i ddylunio a chyd-gynhyrchu'r gweithgareddau a fydd yn cyflawni'r canlyniadau hynny. Gellir cyflwyno rhai o'r gweithgareddau hyn mewn partneriaeth â grwpiau a sefydliadau cymunedol eraill.
f) Annog darparwyr gwasanaeth, mewnol ac allanol, i ddatblygu, addasu a newid mewn ymateb i'r ffordd newydd hon o weithio.
g) Annog grwpiau cymunedol fel Men's Sheds i gynnig lleoliadau a gefnogir a all ychwanegu at sgiliau unigolyn a sicrhau cynnydd.

Cyfeirier at y map yn **Atodiad A** sy'n dangos lleoliad y gwasanaethau.

**Y Galw i'r Dyfodol:**
Mae'r gwasanaeth yn gwneud y newidiadau hyn er mwyn adlewyrchu cynnydd yn y galw a sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol. Mae nifer y bobl ar Gofrestr Anabledd Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn wedi cynyddu dros y 14 mlynedd diwethaf o 249 yn 2005 i 322 yn 2019, sef cynnydd o 29%. Pe bai'r nifer ar y gofrestr yn cynyddu ar gyfradd debyg dros y 15 mlynedd nesaf efallai y bydd 415 ar y Gofrestr erbyn 2034. Yn gadarnhaol, mae unigolion ag anableddau hefyd yn byw yn hirach ac o ganlyniad, mae angen cefnogaeth i gwrdd ag ystod o anghenion cymhleth na chawsant eu nodi o'r blaen.
Rhaid i'r ddarpariaeth gwasanaeth gyfredol newid er mwyn cwrdd â'r galw yn y dyfodol a disgwyliadau gwahanol.

**Nifer y bobl ar y gofrestr AD:**

| Blwyddyn | Oed 18-65 | Dros 65 oed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2005 | 235 | 14 | 249 |
| 2010 | 255 | 17 | 272 |
| 2015 | 271 | 32 | 303 |
| 2019 | 289 | 33 | 322 |

**Y galw yn y dyfodol: Anableddau Dysgu Dwys a Lluosog (ADDLl) ac Awtistiaeth:**
Mae gwybodaeth a gymerwyd o'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn dangos y bydd cynnydd yn y galw am gefnogaeth i bobl ag anableddau cymhleth (Anableddau Dysgu Dwys a Lluosog (ADDLl) ac Awtistiaeth). Mae'r gwasanaeth wedi nodi 8 unigolyn sy'n gadael addysg dros y 3 blynedd nesaf a fydd angen darpariaeth arbenigol.

## HERIAU ALLWEDDOL Y MAE'R CANOLFANNAU DYDD YN EU HWYNEBU AR HYN O BRYD

Mae'r heriau allweddol y mae'r canolfannau'n eu hwynebu fel a ganlyn:

| | Heriau Allweddol |
|---|---|
| **3.1 Hygyrchedd** | Ar hyn o bryd dim ond Gors Felen a Blaen y Coed sy'n gwbl hygyrch i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth gyda mynediad un lefel drwyddynt, teclynnau codi ar draciau yn y nenfwd a chyfleusterau toiled digonol.<br><br>Mae Morswyn yn hen adeilad ysgol gynradd – nid yw rhai rhannau o'r adeilad yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac mae'r cyfleusterau toiled yn annigonol.<br><br>Gofod allanol yw Gerddi Haulfre yn bennaf ac nid yw'n gwbl hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae Gerddi Haulfre yn defnyddio'r cyfleusterau yn Blaen y Coed. |
| **3.2.Cludiant / amser teithio** | Ar hyn o bryd mae unigolion yn teithio pellteroedd o hyd at 60 milltir y dydd i gael mynediad i'r canolfannau dydd, gan ddefnyddio gwahanol ddulliau teithio. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio gwasanaethau y tu allan i'w ward ac mae llawer o unigolion yn teithio hyd at 3 awr y dydd. |
| **3.3 Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** | Cyfyngir y cyfleoedd cyfredol i weithgareddau yn y canolfannau dydd ac er y gwneir ymdrech i'r canolfannau fynd ar weithgareddau allanol hefo'i gilydd, mae'n costio. |
| **3.4. Cost y dydd** | Nid yw'r costau uned cyfredol fesul dydd yn adlewyrchu'r anghenion a'r materion amrywiol sy'n wynebu ein defnyddwyr gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae'r gost uned yn uwch ar gyfer yr unigolion mwyaf annibynnol ac abl nag ar gyfer y rheini sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Ar ben hynny, mae'r gost ddyddiol fesul pen yn is yn y sector annibynnol (o leiaf £35 yn is y dydd). |
| **3.5 Adeiladau** | Mae costau sylweddol yn gysylltiedig ag adnewyddu, atgyweirio a chynnal a chadw'r holl adeiladau cyfredol. |
| **3.6 Arbenigedd a rheolaeth** | Ar hyn o bryd mae arbenigedd y staff ymroddedig wedi'i rannu ar draws y pedwar safle heb unrhyw ganolfan ragoriaeth. At hynny, rheolir y gwasanaethau hyn yn gyffredinol ar safle ar wahân. |

Cyn dod i'r cynnig (Adran 3) isod, mae'r Cyngor wedi ystyried y canlynol:

- Gyrwyr allweddol ar gyfer newid (Adran 4)
- Gyrwyr allweddol ar gyfer y gwasanaethau dydd mewnol (Adran 5)
- Dewisiadau amgen rhesymol ar gyfer y gwasanaethau dydd mewnol (Adran 6)
- Gwybodaeth ariannol (Adran 7)

## 3. Y CYNNIG

Y cynnig yw:
**Datblygu mwy o gyfleon yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre**.

Bydd y gwasanaeth newydd yn darparu cyfleon hyblyg i bobl ag anabledd dysgu a bydd yn cwrdd â galw yn y dyfodol, gan gynnwys gan y bobl hynny ag anghenion mwy cymhleth.

Gwneir hyn drwy:

1. Sefydlu fframwaith comisiynu cadarn i ddarparwyr allanol gynnig cyfleoedd dydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
2. Datblygu cyfleon pellach i bobl ag anabledd dysgu ddefnyddio'r adnoddau a'r gwasanaethau cyfredol o fewn y gymuned yn ystod y dydd e.e. mewn hybiau lleol.
